# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 553 · **Mai 2024** · 70c


## Dreifio'r Dyffryn yn Drydanol!




Mewn cyfnod ble mae cymunedau'n wynebu heriau trafnidiaeth a chostau byw cynyddol, mae Partneriaeth Ogwen yn falch iawn o lawnsio bws newydd cymunedol Dyffryn Ogwen gyda phrosiect trafnidiaeth y Barnteriaeth, Dyffryn Caredig, gyda diolch i Ynni Ogwen am y rhodd hael iawn. Mae Ynni Ogwen wedi prynu bws trydan 16 sedd a'i roddi i Bartneriaeth Ogwen er budd y gymuned, yn arbennig ar gyfer ysgolion y Dyffryn.

Mae'r Dyffryn Caredig yn brosiect dwy flynedd a ariennir gan y Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sydd yn yn canolbwyntio ar drafnidiaeth gymunedol – cerbydau a beiciau trydan fydd yn darparu cludiant fforddiadwy a chynaliadwy i gymunedau Dyffryn Ogwen ac yn cyfrannu at leihau ôl-troed carbon y Dyffryn a chryfhau gwead ein cymuned a chyfranogiad trigolion i fywyd a chymdeithas Dyffryn Ogwen.

Mae Ynni Ogwen Cyf yn gymdeithas budd cymunedol sy'n gweithredu er budd amgylcheddol a chymdeithasol Dyffryn Ogwen. Prif amcan Ynni Ogwen Cyf yw cynhyrchu trydan trwy ddulliau cynaliadwy. Yn benodol, maent yn cynhyrchu trydan o ynni dŵr yr Afon Ogwen gan drosglwyddo unrhyw elw i gronfa gymunedol fydd yn cael ei sefydlu i ariannu prosiectau cymunedol ac amgylcheddol eraill yn Nyffryn Ogwen

**Dywedodd Gareth Cemlyn Jones, Cadeirydd Ynni Ogwen:** Rydym i gyd wedi dioddef yn arw gyda phrisiau trydan uchel dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wrth gwrs yn bryder i ni gyd.

Yn Nyffryn Ogwen rydym yn lwcus o fedru cynhyrchu trydan ein hunain drwy'r hydro sydd yn berchen i'r gymuned. Mae hyn yn golygu ein bod wedi medru manteisio ar y cynnydd ym mhrisiau gwerthiant trydan sydd wedi creu incwm sylweddol i ni dros y cyfnod. Mae'n rhoi cyfle i ni ychwanegu at ein rhoddion cymunedol ag amgylcheddol.

Rydym eisoes yn ymestyn ein prosiect Heuldro ar fwy o adeiladau yn y gymuned i gynyddu ein ynni cynaliadwy.

Hefyd rydym yn falch iawn o fedru cyflwyno'r bws trydan newydd i'w defnyddio gan ysgolion yr ardal. Mae hwn yn gerbyd all gludo hyd at 16 o bobl ac yn estyniad sylweddol i'r fflyd o gerbydau sydd eisoes dan reolaeth Partneriaeth Ogwen.

Fel ymrwymiad i drafnidiaeth glân a chynaliadwy yn y Dyffryn, mi fydd y bws yma ar gael hefyd i fudiadau lleol drwy Bartneriaeth Ogwen.

Diolch o galon i'r gwirfoddolwyr sydd yn ein helpu ni gyda'r ochr weinyddol o redeg yr hydro a chynnal Ynni Ogwen, sydd tu ôl i'r cyfraniad yma.

---

**Diolch i Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Caredig am yr erthygl. Gol.**

Llyfrgelloedd Gwynedd a Partneriaeth Ogwen

**DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2024**

**'Gŵr â Chymru yn ei Galon'**

**H.R. Jones**

**Trefnydd Cyntaf Plaid Genedlaethol Cymru**

**gan Glyn Tomos**




**Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen**

**Bethesda**

**Nos Lun**

**10fed Mehefin - 7.30**

**Mynediad am ddim**

Partneriaeth Ogwen · Llyfrgelloedd Gwynedd Libraries · Cyngor Gwynedd

# Llais Ogwan


**Rhif 553**
Mai 2024



### Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Lowri Roberts.**

Y golygydd ym mis **Mehefin** fydd **Rhys Llwyd.**
Tonteg, 13 Talycae, Tregarth,
Bangor, Gwynedd, LL57 4AE
01248 601606
Ebost: rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Mehefin** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 20 Mehefin,** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Mai**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (192) Carys Dafydd, Braichmelyn. |
| £20.00 | (47) Gillian Taylor-Williams, Glan Ffrydlas, Bethesda. |
| £10.00 | (58) Janet J. Jones, Erw Las, Bethesda. |
| £5.00 | (69) Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG


Marchnad Ogwen

**Mehefin 8fed**
**Gorffennaf 13eg**
**9.30am - 1pm**

**Neuadd Ogwen**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk


## Dyddiadur y Dyffryn

**Mai**

17 Skerryvore. Neuadd Ogwen am 7.30.
18 Bore Coffi Cymorth Cristnogol. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.
18 Carnifal Bethesda. Gorymdaith yn cychwyn o'r Cae Peldroed am 1.00
24 Gwyl Melangell. Eglwys Crist Glanogwen am 7.00.
25 Galw Artistiaid Ifanc Talybont. Festri Bethlehem am 10.00
26 Ffair Wanwyn.Yn Eglwys Crist Glanogwen. 2.00 – 5.00yp.
28 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
31 Puerto Candelaria (Colombia) a Tonna, DJs. Neuadd Ogwen.

**Mehefin**

01 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Caeau Rygbi Bethesda.
03 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
03 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
03 Merched y Wawr Tregarth. Parchg. Nerys Griffiths. Festri Shiloh am 7.30
04 Cyfarfod Blynyddol Caban y Gerlan am 7.00.
08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
10 Darlith Goffa Dafydd Orwig. Llyfrgell Gymunedol Bethesda am 7.30.
11 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
17 Clwb Coffi Talybont. Festri bethlehem am 10.30.
20 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
29 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.

**Gorffennaf**

06 Merched y Wawr Tregarth. Gwibdaith i'r Ysgwrn.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.


# Elwyn Jones & Co

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**

## - Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000



# Y Beibl Gwau yn dod i Ddyffryn Ogwen

Os dewch i gapel Shiloh, Tregarth yn ystod yr ail a'r drydedd wythnos ym Mehefin, cewch weld tipyn o ryfeddod. Bydd holl stori'r Beibl wedi'i gosod allan mewn dros 30 o olygfeydd, gyda'r cymeriadau a phob math o fanylion wedi'u gwau yn gelfydd. Criw o bobl mewn capel yn Hartlepool gafodd y syniad o greu'r Beibl Gwau. Aeth rhyw 50 o bobl ati i wau pob dim. Roedd pawb a'i gwelodd wedi rhyfeddu ac yn frwdfrydig iawn – a dyma benderfynu rhoi ei fenthyg i gapeli ac eglwysi eraill, i lawer mwy o bobl gael ei weld. Mae mor boblogaidd fel bod angen bwcio slot fisoedd lawer ymlaen llaw ond yn awr rydym yn ffodus i'w gael i Ddyffryn Ogwen ym Mehefin eleni. Fe rennir manylion yn nes at yr amser, i chi wybod pryd y bydd yn agored. Dewch fwy nag unwaith os dymunwch! Bydd croeso a phaned i bawb hefyd wrth gwrs.

### Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £2.30 | Mrs. Jones, 4 Rhos y Coed, Bethesda. |
| £12.30 | Er cof am Gerald Owen, Ffordd Stesion, Bethesda. |
| £5.00 | Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Llanllechid. |
| £5.00 | Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. |
| £100.00 | Er cof annwyl am Ray a Katie Jeffries, Tregarth. |
| £2.00 | Rhian Phillips, Caerdydd. |

**Diolch yn fawr.**


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com


# Gwahoddiad i'r Cinio Mawr, Mehefin 2024.

Bwyd? Gazebo? Bynting? Cerddoiaeth? Peiriant candy floss?! Beth fyddwch chi'n dod i'r bwrdd eleni?

Ydy, mae penwythnos **Y Cinio Mawr** blynyddol rownd y gornel, ac eleni eto mae tîm Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn eich gwahodd chi i ddod at eich gilydd yn eich cymuned ac i gymryd rhan yn yr hwyl!

Mae'r Cinio Mawr yn ddigwyddiad blynyddol sy'n hybu pobl o amgylch Cymru a thu hwnt i ddod at ei gilydd yn y gymuned i rannu bwyd, sgwrs a chreu cysylltiadau newydd. Llynedd daeth **482,000** o bobl Cymru at ei gilydd i gymryd rhan a chodi tua **£200,000** at elusennau lleol hefyd.

Eleni, rydym yn eich annog chi i drefnu'r Cinio Mawr mwyaf gwyrdd erioed, er mwyn hybu'r amgylchedd ac arbed arian hefyd. Beth am drefnu picnic yn y parc lleol? Beth am drefnu cinio yn y neuadd bentref a gofyn i fwytai lleol gyfrannu bwydydd sy'n wastraff? Neu beth am drefnu parti stryd a bod pob tŷ yn cyfrannu rhywbeth? Gall fod yn ddigwyddiad mawr neu mor syml â rhannu cacen gyda'ch cymdogion, y peth pwysig yw hybu'r gymuned a'i phobl, does dim angen gwario.

Mae penwythnos swyddogol Y Cinio Mawr eleni ar y **1-2 o Fehefin**, ond gallwch drefnu eich Cinio Mawr unrhywbryd ym Mehefin.

Ewch i //bit.ly/yciniomawr24 i archebu pecyn digidol a dwyieithog am ddim, ac i gofrestru eich Cinio Mawr ar y map hefyd!

**Eisiau sgwrs? Cysylltwch â Lowri Jenkins, Rheolwr Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru ar LJenkins@edenproject.com**

**Cofiwch ein dilyn ni @ EdenCommunitiesCymru a rhannu eich cynlluniau a'ch lluniau gyda ni ar Instagram, Facebook ac X.**




# Llythyr

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Annwyl Ddarllenydd,

**Wythnos Cynnig Cymraeg – 13-17 Mai 2024**

Hoffwn dynnu eich sylw at gynllun y 'Cynnig Cymraeg', sy'n cydnabod ymdrechion cyrff nad ydynt yn dod o dan Safonau'r Gymraeg i greu cynlluniau datblygu'r Gymraeg. Cyrff sector breifat, trydydd sector ac elusennau yw'r rhain yn bennaf. Mae'n gyfle iddynt ddangos eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

Caiff wythnos y 'Cynnig Cymraeg' ei chynnal rhwng 13-17 Mai a bydd sylw ar y cyfryngau i'r cynllun ac i'r cyrff sydd wedi derbyn ein cydnabyddiaeth.

Mae dros gant o sefydliadau bellach wedi derbyn y gydnabyddiaeth ac mae rheiny yn cynnwys Aldi, Undeb Rygbi Cymru, Lidl, NSPCC Cymru ac RSPB Cymru.

Mae'r sefydliadau sydd yn derbyn y Cynnig Cymraeg yn awyddus i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau Cymraeg, felly hoffwn eich annog i wneud hynny pan mae'r cyfle yn codi.

Gellir gweld mwy am y cynllun ar ein gwefan - www.comisiynyddygymraeg.cymru - a byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth i ledu'r gair!

Diolch yn fawr,

**Efa Gruffudd Jones**

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlad**
Daeth Ron ag Anne Key i fyw i Rachub o ardal Maenceinion rai blynyddoedd yn ôl gan fwrw ati i ddysgu'r iaith yn llwyddiannus. Artistiad oedd y ddau a daethant yn boblogaidd yn yr ardal gan agor stiwdio darluniau yn eu cartref 15, Caellwyngrydd.

Buont yn darlunio cymeriadau, adeiladau a golygfeydd yr ardal.

Yn anffodus bu farw Ron ond daliodd Anne i weithio yn y stiwdio hyd at yn ddiweddar. Gwynebodd salwch cas yn ddewr iawn, ond bu'n rhaid iddi roi'r gorau i'r gwaith yn ddiweddar oherwydd salwch. Ond ar ddechrau Ebrill bu farw yn ysbyty Gwynedd. Bu gwasanaeth angladdol yn Eglwys St Cross, Talybont ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Coetmor ar Fai 1af. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu a'r llu o gyfeillion oedd gan Anne yn yr ardal.

**Rhian Jones, Bron Arfon**
Wrth i'r Llais fynd i'r wasg derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth Rhian. Cydymdeimlwn â'i theulu a ffrindiau yn eu profedigaeth.

**Diolch**
Mae Kayleigh Williams, Lon Groes yn diolch am y llu cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl yn ddiweddar. Gobeithio ei bod yn gwella wedi y driniaeth.

**Dymuniadau gorau**
Newyddion gwell i Michael a Kayleigh oedd dathlu pen-blwydd priodas aur yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch.

**Ysbyty**
Anfonwn ein cofion ar Rhian Williams, 3, Bron Arfon sydd wedi dderbyn triniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Glan Clwyd.

## Capel Carmel

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at un o'n haelodau, sef Mr Bryan Griffiths, a gollodd ei fam, Mrs Gwendolyn Griffiths, yn ystod y mis. Rydym ni'n cydymdeimlo gydag ef a'i wraig, Cari a'r plant, Meilyr, Awel a Betsan yn ogystal â'i phriod Mr Tom Griffiths yn eu profedigaeth.

**Dymuniadau da**
Rydym ni'n anfon ein cofion a'n dymuniadau da at aelodau sydd mewn cartrefi preswyl ar hyn o bryd, sef Miss Deila Griffith (Plas Marl, Cyffordd Llandudno), Mrs Betty Jones, Mrs Glenys Edwards a Mrs Valerie Thomas (Plas Ogwen).



Y plant gyda'r gwisgoedd a'r capiau y mae'r merched wedi eu gwau i fabanod yn Affrica, sydd i'w hanfon yno o fewn yr wythnos nesaf.

**Y Clwb Gwau**
Mi gawsom ni brynhawn difyr yng nghwmni plant 5 a 6 oed Ysgol Llanllechid. Daeth criw o 26 ohonyn nhw i'n diddori ni drwy ganu hwiangerddi a chaneuon eraill gan gloi drwy ganu "Calon Lân" gyda brwdfrydedd mawr. Ardderchog, wir! Roedd merched y clwb wedi dotio at y plant. Diolch yn fawr i'r athrawon am ddod â nhw ac am eu dysgu i ganu mor dda. Roeddem ni'n falch o weld bod Ms Gwenan Davies-Jones wedi gwella ac yn ei hôl yn yr ysgol ac wedi dod efo'r plant.

## Clwb Hanes Rachub

Cafwyd noson ddifyr a hwyliog yng nghwmni Eifion Griffiths (Tŷ Mwyn) yn y Clwb Criced yn ddiweddar, - cyfarfod i ddod â Chlwb Hanes Rachub i ben am y tymor. Merlod Mynydd y Carneddau oedd o dan sylw, merlod sydd wedi crwydro'r Carneddau ers yr Oes Efydd (tua 2 – 3 mil o flynyddoedd Cyn Crist) merlod gwydn a chaled, merlod hollol unigryw! Clywyd am bwysigrwydd gwarchod y merlod yma, a sut mae nifer fechan o ffermwyr yn dal i geisio gwneud hynny, er yn wynebu pob math o rwystrau, biwrocratiaeth a phobol di-ddallt! Mae Eifion yn perthyn i bedwaredd cenhedlaeth teulu oedd yn gwarchod y merlod, ac mae'n cofio mynd gyda'i dad a'i ewythrod draw i Aber ac ar hyd 'Mynydd Llanllechid' er mwyn dal y merlod i sicrháu eu bod yn iach. Roedd rhaid gofalu bod eu carnau'n gryf a iach, y gynffon wedi ei thacluso a bod nodau'n golwg yn y clustiau, - yn union fel y rhai sydd yng nghlustiau defaid. Pan fyddai pawb yn fodlon, yna byddai'r merlod yn cael dychwelyd i'r mynydd am flwyddyn arall. Erbyn heddiw, mae gan y merlod 'basport', ac mae'r 'micro chip' wedi disodli'r nodau clust, - hyn eto'n achosi problemau o'r newydd i griw y merlod, yn ogystal â chael gwared â geirfa a thermau gwych oedd yn ymwneud â'r gwaith. Teimlwyd nad oedd merlod y Carneddau'n cael cystal chwarae teg â merlod yr Epynt a merlod Canolbarth Cymru, gan fod eu sefyllfa yn wahanol. Roedd yn haws cadw'r rheiny gyda'i gilydd gan fod eu tiroedd yn gaeedig, ond mae rhwydd hynt i ferlod y Carneddau grwydro i unrhyw le! Ond rhag ofn i unrhyw un feddwl mai cyfarfod trist a negyddol a gafwyd, - dim ffiars! Roedd 'dawn dweud' Eifion wrth adrodd stori yn adloniant pur, ac roedd aelodau'r clwb yn eu dyblau yn aml, wrth glywed hanesion cymeriadau'r byd merlod, e.e. yr ewythr a fethodd ddatod yr awenau oddi ar un ferlen, a chael ei lusgo ar ei fol, yr holl ffordd at Lyn Coch, y cyw ar sêt gefn y car a edrychai fel Alsatian, a ble i beidio sefyll ar ôl ceisio gwella colic ar ferlen drwy roi llond potel o Yorkshire Relish i lawr ei chorn gwddw!

Diolch Eifion, am noson werth chweil! Diolch hefyd i chwi'r aelodau am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, ac edrychwn ymlaen i'ch gweld eto ym Mis Medi.

Cofiwch am ein gwefan – clwbhanesrachub.co.uk




**Clwb Dwylo Prysur**
Daeth Miss Elin Pritchard atom ni ar un nos Wener i adrodd ychydig am ei gwaith yn y Gwasanaeth Ambiwlans. Roedd Elin yn ddiddorol dros ben ac mi gawsom ni arddangosiad ganddi hi o'r ffordd gywir i ddefnyddio technoleg a chyfarpar meddygol, yn cynnwys diffribriliwr. Mi wnaeth y bobl ifanc ei holi hi wedyn am ei gwaith a'i phrofiadau amrywiol iawn ac roedd hi'n hynod o ddiddorol a deallus ei hatebion. Diolch i Elin am ddod atom ni a rhoi noson mor ddifyr ac addysgol i'r bobl ifanc. Diolch iddi hi hefyd am ei gwasanaeth pwysig iawn i'r gymdeithas yn ei gwaith bob dydd.

**Capel Carmel**
*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Mai 19 : Parchg. Iwan Llewelyn Jones.
Mai 26 : Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Mehefin 2 : Parchg. D. John Pritchard.
Mehefin 9 : Oedfa.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

**WALIO FFRANCON**
**Cysylltwch am Waith**
Trwsio/Codi Waliau
Clirio Gerddi ac Ysbwriel
**07766 157552**
**07464 085759**

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

## Plaid Cymru

Cafwyd noson wych yn Bragdy Tŷ Mo, Bethesda yn ddiweddar i godi pres at ymgyrch Catrin Wager, ymgeisydd Plaid Cymru dros Fangor Aberconwy.

Bar cwrw crefft yw TŶ MO, ac maent yn cynnal nosweithiau blasu cwrw, gyda'r perchennog yn trafod rhinweddau'r gwahanol mathau o gwrw.

Diolch i Gwilym Bowen Rhys am roi adloniant i'r dorf.







# YSGOL LLANLLECHID



**Ras Moel Wnion**
Llawer o ddioch i Mr Ross Roberts am drefnu Ras Moel Wnion i ni unwaith yn rhagor eleni. Bu'r diwrnod yn llwyddiant ysgubol, a daeth criw da o redwyr ynghyd o ardaloedd ar draws Gogledd Cymru. Diolch yn fawr i'r Cyfeillion am eu gwaith yn y gegin. Diwrnod da, a chyfle i agor yr ysgol allan i'r gymuned ehangach. Gwnaethpwyd elw o £150.42 i gronfa'r ysgol.

### Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at deulu Miss Gwenllian Swann. Bu farw tad Miss Gwen yn ddiweddar, ac rydym yn anfon ein cofion ati hi a gweddill y teulu yn eu colled.

### Penblwydd Arbennig
Pen-blwydd hapus iawn i Anti Sharon, sydd wedi dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio i chi fwynhau`r penwythnos yn dathlu!

### Bingo Pasg
Er fod y Bingo, a gafodd ei gynnal yn y Clwb Criced yn edrych yn bell yn ôl erbyn hyn, hyfryd yw cael y cyfle i ddiolch i bawb a fu`n rhan o`r trefnu. Diolch arbennig i Mrs Ceri Evans a`i thîm am sicrhau yr holl raffls, a phob dim! Cafwyd noson gwerth chweil, a gwnaethpwyd elw o £693.50, sy`n swm anrhydeddus! Diolch i'r holl deuluoedd a`r gymuned am yr holl gefnogaeth.

### Gweithdy Celf
Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn brysur yn cymryd rhan mewn gweithdy Celf, i ddathlu cant a hanner o flynyddoedd o fodolaeth Undeb y Chwarelwyr. Bu`r disgyblion yn brysur yn creu campweithiau ar gyfer creu baner anferthol. Trefnwyd taith gerdded i gludo'r faner o'r amgueddfa yn Llanberis i Graig yr Undeb, sydd ochor arall i Lyn Padarn. Digwyddiad pwysig i`w nodi.

### Bryn Thomas
Braf oedd croesawu Bryn Thomas i`r ysgol. Bu`n dysgu sgiliau sylwebu i`r disgyblion hŷn. Profiad bendigedig i ddatblygu llafaredd y disgyblion!

### Capel Carmel
Cafodd dosbarth Miss Elen Evans a Mrs Humphreys wahoddiad i fynd i ganu i`r Clwb Gwau yn festri Capel Carmel, a dyna beth oedd addysg i ni! Roedd hi`n fraint cael dysgu fod y dillad bach yn mynd i fabanod newyddanedig, amddifad yn Kenya. Diolch i chi blant bach Blwyddyn Un am ganu rhai o`n hoff ganeuon gwerin: Mae gen i dipyn o dŷ bach twt ac ati, cyn gorffen gyda Calon Lân! Diolch arbennig i Mrs Helen Williams am y croeso cynnes, fel arfer. Prynhawn bendigedig!

### Marathon Ysgol Gyfan
Bu pob disgybl yn cymryd rhan mewn ras marathon ysgol gyfan drwy redeg rownd y trac. Cafwyd diwrnod penigamp, a phawb yn chwysu chwartiau! Diolch yn fawr i`r Cyngor Ysgol am drefnu`r cyfan. Casglwyd £144.55 tuag at elusen Hosbis Dewi Sant/Awyr Las. Llongyfarchiadau i'n rhieni James Roberts, am gwblhau Marathon Llundain ac i Rhydian Jones a Paul Owen am gwblhau marathon Manceinion. Camp a hanner!

### Pelrhwyd
Dyma'r tîm oedd yn cynrychioli`r ysgol yng nghystadleuaeth peldroed yr Urdd. Da iawn chi am chwarae mor egnîol. Diolch hefyd i Mrs Nerys Jones am sefydlu`r Clwb Pelrhwyd ym Mhlas Ffrancon – pawb wrth eu boddau!

### Llion Williams
Braf oedd croesawu Llion Williams o`r cwmni Mewn Cymeriad atom i ddweud yr hanes pwysig yma. Nid ydym yn blino ar y sioe yma, sy'n olrhain taith yr iaith o`i dechreuad. Amdani rwan am y miliwn o siaradwyr!



### Côr Cerdd Dant
Llongyfarchiadau i`r Côr Cerdd Dant ar eu perfformiad yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Mae paratoadau ar droed i fynd i`r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai eleni. Pob dymuniad da i chi, a diolch i Mrs Delyth Humphreys am eich hyfforddi.



### Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd
Llongyfarchiadau i`n disgyblion a fu`n chwarae rygbi mewn twrnament yr Urdd yng Nghaernarfon, cyn y Pasg. Roedd pedair ysgol a`r ddeg yn cystadlu yn y twrnament a daeth ein hysgol ni yn ail! Mae`r tîm wedi cyrraedd y rowndiau terfynnol yng Ngwyl Chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth ar Fai 12fed. Llongyfarchiadau i chi, a phob dymuniad da i chi yn Aberystwyth, a diolch i`r rhieni am eich cymorth parod.

### Talcen y Deyrnas
Heb os, mae gallu cerdded i fyny i Dalcen y Deyrnas yn rhoi gwefr i ni bob tro, ac mae`r olygfa oddi yno yn odidog. A dyna i ble'r aeth dosbarth Mrs Tegid ar brynhawn braf i ddysgu am eu cynefin!

### Creu Bisgedi
Llawer iawn o ddiolch i Mrs Lynwen Thomas am ddod i mewn i`r ysgol i ddysgu rhai o`r plant ieuengaf sut i wneud bisgedi! Diolch yn fawr! Blasus dros ben! Arogl hyfryd drwy`r ysgol!

### Rygbi
Braint a hanner oedd croesawu ein cyn-ddisgybl Jac Wyn Thomas i`r ysgol i ddweud ei hanes yn chwarae rygbi i Gymru dan 18 oed. Roedd y disgyblion wrth eu boddau ac yn llawn cwestiynau! Braf bod breuddwydion yn dod yn wir - tyrd yn ôl yn fuan Jac!

### Diwrnod y Llyfr
Bu'n fraint croesawu ugain o ddisgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen i'n hysgol ar Ddiwrnod y Llyfr. Roedd pob un ohonynt yn darllen eu storiau gwreiddiol i'n disgyblion ieuengaf. Am syniad da gan Bennaeth Adran y Gymraeg, Catrin Heledd. Cafwyd bore gwych yng nghwmni ein gilydd. Diolch o galon!

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Gwaeledd**
Rydym yn meddwl am bawb yn yr ardal sydd ddim mewn iechyd da ar hyn o bryd. Cofion atoch mewn ysbytai, cartrefi gofal neu adref ar eich aelwyd eich hun, a dymunwn wellhad llwyr a buan i chwi.

Gwyddom fod Olga Davies, Yr Hen Berllan, Dob, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers rhai wythnosau ond mae adre'n gwella erbyn hyn.

Nid yw Maud Griffiths, Gilfach, Dob, wedi bod yn dda yn ddiweddar, ac anfonwn. ein cofion ati hithau.

**Ymddeoliad**
Daeth cyfnod i ben yn ystod yr wythnosau diwethaf pan ymddeolodd Einir Wyn Jones, Henli, Pendinas, o'i gwaith fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, wedi blynyddoedd o wasanaeth. Diolch am dy ymroddiad fel nyrs Einir ac ymddeoliad hapus a llawn iechyd i'r dyfodol.

**Capel Shiloh Newydd, Tregarth**
Mae gwasanaethau yn Shiloh bob Nos Sul am 5 o'r gloch a chroeso cynnes i bawb i ymuno yn yr oedfaon.

Mai 19 Philip Barnett, Swydd Efrog
Mai 26 Dr Ian Morris
Mehefin 2 Philip Barnett, Swydd Efrog
Mehefin 9 Eurfryn Davies, Llandegfan
Mehefin 16 Ffion Rowlinson, Bethesda

**Drws Agored**
Ydi, mae drws Shiloh ar agor bob bore Gwener ar gyfer pawb hoffai sgwrs, paned, cynhesrwydd a chwmni, a da ydi nodi fod y festri yn brysur a llawn sgwrs a chroeso i bawb.

**Lleuwen Steffan yn Shiloh**
Hyfryd oedd cael croesawu Lleuwen atom i Shiloh i gyflwyno noson 'Emynau coll y Werin' - casgliad o emynau a chaneuon na chawsant eu cyhoeddi mewn llyfrau emynau am amryw o resymau.

Merch o Riwlas ydi Lleuwen, gafodd ei haddysg yn Ysgol Rhiwlas, Ysgol Dyffryn Ogwen a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Mae bellach yn byw yn Llydaw ac yn gantores adnabyddus ar y cyfandir ac wrth gwrs yma yng Nghymru.Bu'n gweithio ers 2013 ar y gwaith yn ymwneud â'r emynau coll gan dreulio oriau yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan yng Nghaerdydd ac yn y Llyfrgell Genedlaethol yn casglu hen leisiau, profiadau a chaneuon o gyfnod cyn ac ar ôl diwygiad 1904. Yn ystod y noson clywsom leisiau o'r gorffennol yn ogystal â llais Lleuwen ei hun yn cydganu'r emynau. Mae'r gwaith wedi cymryd blynyddoedd i'w roi at ei gilydd a llongyfarchwn Lleuwen am ddod â'r gwaith i amlygrwydd. Mae wedi teithio drwy Gymru yn cyflwyno'r gwaith a bydd y drydedd daith yn ystod yr Hydref pan ddaw i Gapel Emaus ym Mangor. Mwy o fanylion i ddilyn.

Daeth tyrfa ardderchog o bob man o'r gogledd i Dregarth i wrando ar Lleuwen ac roedd yn noson ysbrydoledig. Os cewch gyfle eto cofiwch fanteisio ar y cyfle i weld Lleuwen wrth ei gwaith yn cyflwyno Emynau Coll y Werin. Diolch o galon i'r holl gynulleidfa ymunodd hefo ni yn Shiloh. Roedd y noson yn rhad ac am ddim a gwnaed casgliad at Gisda, yng Nghaernarfon, sef gwasanaeth sydd yn gweithio gyda ieuenctid bregus a digartref ein bro. Hyfryd oedd medru trosglwyddo swm o £712.63 i Gisda. Diolch o galon i bawb am eu cyfraniadau at achos mor deilwng.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Nos Lun, Ebrill 1 cyfarfu Cangen Tregarth o Ferched y Wawr yn Festri Capel Shiloh Newydd gyda Christine Morris Jones yn llywyddu. Croesawyd un o aelodau'r gangen, sef Mary Jones, Bethesda, i roi sgwrs ar 'Iaith Pesda'. Rydym mor lwcus i gael darllen colofn Mary am iaith y dyffryn bob mis yn Llais Ogwan ac mae'r gwaith yn wirioneddol ddifyr gan ei bod yn mynd i wraidd geiriau ac ymadroddion sydd i'w glywed ar dafod leferydd trigolion yr ardal. Cafwyd cyfle i ymateb i'w sgwrs a dymuniad Mary yw fod mwy ohonom yn cysylltu hefo hi gyda geiriau a dywediadau sydd bellch ond yn cael eu defnyddio gan yr henoed a'r canol oed. Y mae mor bwysig fod ein plant a'n hieuenctid hefyd yn cael gafael ar yr iaith unigryw yma ac yn ei defnyddio ar gyfer ei chadw ar gof a chadw.

Diolchodd Gwenda iddi am noson ardderchog.

Bydd y Gangen yn cyfarfod ar Fai 13 pan ddaw Gwyn Vaughan Jones i sgwrsio am 'Fy ffrind, Arthur a fi'(Rownd a Rownd ) ! Croeso mawr i bawb yn Festri Shiloh Newydd am 7.30 o'r gloch.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn gydag Alwena a'r teulu, Braich Talog, ar golli ei thad , Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas, Bethesda. Rydym yn meddwl amdanoch i gyd fel teulu.

# 40 Mlynedd o Wrando

Eleni bydd Cangen Gogledd Orllewin Cymru o'r Samariaid wedi gwasanaethu'r ardal hon - Gwynedd, Ynys Mon a Gorllewin Sir Conwy - am 40 mlynedd. Atebwyd yr alwad ffôn gyntaf ar 20fed Mai 1984 ac ers hynny mae'r gangen wedi ymateb i dros dri chwartrer miliwn o alwadau am gymorth a dros 900 o bobl wedi cynnig eu hunain i wirfoddoli yn y gangen dros y blynyddoedd.

Mae'r gangen yn rhan o fudiad ehangach y Samariaid a gafodd ei sefydlu 71 o flynyddoedd yn ôl gan Chad Varah. Un o'i ddyletswyddau yn ei swydd gyntaf fel offeiriad, oedd gweinyddu mewn angladd merch 14 oed a oedd wedi diweddu ei bywyd pan ddechreuodd ar ei misglwyf a meddwl mai'r diafol oedd wedi'i meddiannu. Doedd ganddi neb i rannu ei phryder a chafodd hyn argraff ddofn ar y Chad ifanc ac ychydig flynyddoedd wedyn, sefydlodd y Samariaid, gyda'r nod o gynnig math o wasanaeth 999 i'r rhai oedd yn meddwl diweddu eu bywydau. Heddiw mae gan y Samariaid dros 200 o ganghennau.

Clust i wrando yw'r gwasanaeth 24 awr a gynigir gan y Samariaid, a gweledigaeth y mudiad yw y bydd llai o bobl yn marw trwy hunanladdiad. Nid yw hunanladdiad yn anochel, mae'n bosib ei rwystro ac mae ymchwil byd eang wedi dod i'r casgliad mai'r allwedd i geisio rhwystro marwolaethau o'r fath yw'r cyfle i siarad a rhannu teimladau. Mae'r rhesymau am hunanladdiad yn gymhleth, ond y tu ôl i bob achos mae unigolyn sy'n gadael teulu a chymuned wedi eu dryllio gan eu colled. Yng Nghymru yn 2023 diweddodd 356 o bobl eu bywydau ac yn gyffredinol roedd

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

cyfradd y marwolaethau'n uwch yn yr ardaloedd gwledig.

Nid oes rhaid bod â theimladau hunanladdiad i gysylltu fodd bynnag, mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth gefnogaeth emosiynol i unrhywun sydd yn anobeithio, yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn unig, neu'n cael problemau perthynas. Yn 2023 ymatebodd y Samariaid i alwad am gymorth bob 10 eiliad, gan ateb 3.3 miliwn o alwadau am gymorth dros y gwahanol gyfryngau sydd ar gael i gysylltu. Y ffôn yw'r dull mwyaf poblogaidd i gysylltu o hyd ac atebwyd dros 3 miliwn o alwadau ffôn; nid oedd dim eilaid pan nad oedd y Samaraid ar y ffôn yn gwrando. Mae'r gwasanaeth rhadffon Saesneg ar gael 24 awr y dydd bob dydd o'r flwyddyn ar 116 123. Mae'r Llinell Gymraeg ar gael yn rhad ac am ddim hefyd o 7 tan 11 bob nos ar 0808 1640123.

Mae angen parhaus am wirfoddolwyr yn enwedig Cymry Cymraeg a bydd cwrs hyfforddi cyfrwng Cymraeg yn dechrau fis Mehefin. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli ffoniwch y Swyddfa 01248 67484 (nid y rhif am gymorth emosiynol) neu ebostiwch recriwtio@samariaidbangor.org i gael rhagor o wybodaeth.

Gellir dysgu mwy am ein gwaith ar wefan y gangen www.samariaidbangor.cymru ac i gyd fynd â'r garreg filltir o wrando am 40 mlynedd, mae'r gangen wedi cyhoeddi llyfr yn rhoi gwybodaeth am fudiad y Samariaid a hanes 40 mlynedd cyntaf y gangen yma yng Ngogledd Orllewin Cymru – a'i deitl addas yw *40 Mlynedd o Wrando*. Ei bris yw £10 (£13 drwy'r post). Gellir archebu copi trwy ebost – tudur.colwyn@gmail.com
**Tudur Williams**

# Ynni Ogwen



**Mae Ynni Ogwen yn annog defnyddwyr adeiladau cymunedol ac eiddo busnes i fynegi diddordeb mewn cael mynediad at ffynhonnell lân ac effeithlon o drydan fforddiadwy.**

Mae Ynni Ogwen yn Gymdeithas Budd Cymunedol sy'n cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol er budd amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd darllenwyr Llais Ogwen yn cofio iddynt godi dros £450,000 mewn cyfranddaliadau cymunedol yn 2016 ar gyfer datblygu cynllun hydro ar Afon Ogwen.

Mae'r cynllun hydro 100kW wedi bod yn cynhyrchu trydan glân ers saith mlynedd bellach, gyda'r elw o werthu trydan i'r grid yn cael ei rannu ymhlith mentrau amgylcheddol a chymunedol lleol. Mae Ynni Ogwen hefyd yn falch o fod yn brif gyfrannwr i Elusen Ogwen.

Mae peth o'r elw nawr yn cael ei ddefnyddio i osod paneli solar ar doeau adeiladau cymunedol ac adeiladau busnes trwy raglen Heuldro. Nodau'r rhaglen yw cynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy yn lleol a chefnogi deiliaid yr adeiladau drwy gyflenwi trydan rhatach a rhoi mwy o sefydlogrwydd pris.

Ynni Ogwen sy'n talu am y paneli solar a phopeth sy'n gysylltiedig â nhw. Defnyddir cwmnïau lleol achrededig i'w gosod a'u cynnal a'u cadw: gan gynnwys eu glanhau, gwiriadau rheolaidd ac unrhyw atgyweiriadau yn ôl yr angen. Mae pris y trydan solar yn cael ei osod ar lefel y cytunwyd arni ymlaen llaw wedi'i theilwra i ddefnydd trydan yr adeilad, a fydd yn is na'r pris grid arferol.

Hyd yma, mae 34.72kW o baneli solar wedi eu gosod ar chwe adeilad: Clwb Rygbi Bethesda, Clwb Criced a Bowlio Bethesda, Neuadd Ogwen, Caban Cysgu Gerlan, Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen a swyddfeydd Partneriaeth Ogwen.

Yn dilyn llwyddiant y paneli cyntaf ar do'r Clwb Rygbi, gosodwyd paneli ychwanegol ddiwedd mis Mawrth. Dywedodd llefarydd ar ran y Clwb Rygbi "Mae Ynni Ogwen yn darparu ffynhonnell amgen, ddibynadwy o drydan fforddiadwy i ni sy'n ein galluogi i leihau ein defnydd o drydan grid drud yn sylweddol. Rydym wrth ein bodd eu bod wedi gosod mwy o baneli solar yn ddiweddar ar do'r clwb. Mae'r paneli ychwanegol wedi treblu ein cyflenwad o ynni glân a byddant yn rhoi buddion ariannol parhaus i ni am flynyddoedd lawer i ddod".

Mae gan Ynni Ogwen uchelgais i adeiladu ar lwyddiant rhaglen Heuldro yn sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf. Denwyd cymorth grant gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer swydd newydd Rheolwr Datblygu. Dechreuodd Dafydd Meurig a Walis George rannu'r swydd o ddiwedd mis Ionawr. Bydd Dafydd yn gyfarwydd fel Cynghorydd Sir a chyn Gadeirydd Partneriaeth Ogwen a bu Walis yn gweithio yn y sector cymdeithasau tai yn y Gogledd am dri degawd.

**Cynhelir sesiwn galw heibio ar gyfer sefydliadau cymunedol a busnesau lleol rhwng 2:00-7:00 o'r gloch ddydd Iau, 23 Mai yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda**. Bydd Dafydd a Walis ar gael i ddarparu gwybodaeth ac ateb cwestiynau a bydd y dechnoleg solar ddiweddaraf hefyd i'w gweld. Fel arall, gellir cysylltu â nhw ar ynni@ogwen.org.








**Londis**
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**CHRIS GRIFFITHS CYF**



Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

**DAFYDD CADWALADR**
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

## Rhiwlas

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas
LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com (01248) 351015

**Diwrnod agored Ysgol Rhiwlas**
Gwawriodd bore Sadwrn, Ebrill 20, yn ddiwrnod heulog, braf a gwych oedd gweld drysau'r ysgol ar agor led y pen i groesawu wynebau hen a newydd i'r diwrnod agored ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed. Bu pwyllgor gweithgar yn brysur tu hwnt yn paratoi arddangosfa, yn trefnu lluniaeth ac yn hybu'r digwyddiad ers sawl wythnos. Ymwelodd tua 100 o bobl â'r ysgol yn ystod y bore yn unig gan fwynhau hel atgofion a chael blas ar baned a lluniaeth ysgafn. Yn eu plith roedd pedwar cyn-aelod o staff sef Mr Wil Parry, cyn-brifathro; Mrs Heulwen Parry, Miss Huws gynt (Mrs Jones erbyn hyn!) a Mrs Brown. Ar ran y pentrefwyr, yn gyn-ddisgyblion, rhieni i gyn-ddisgyblion a neiniau a theidiau rhai o'r disgyblion presennol diolch o galon i chi i gyd, yn staff ac aelodau'r pwyllgor, am y croeso. Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil, wir ac yn un fydd yn aros yn y cof.

**Sgwrs i ddathlu pen-blwydd Ysgol Rhiwlas**
Nos Iau 25ain Ebrill am 7 o'r gloch yn Neuadd Bentref Rhiwlas cynhaliwyd sgwrs i ddathlu pen-blwydd Ysgol Rhiwlas yn 150 mlwydd oed. Cyflwynodd Cynrig Hughes hanes addysg yr ardal, cyn trafod detholiad o Lyfrau Log Ysgol Rhiwlas 1874 – 1934. Roedd yn sgwrs hynod ddifyr, a phawb yn gytûn y gellid bod wedi bod yno am awr arall yn trafod hynt a helynt yr ysgol dros y degawdau. Diolch, Cynrig.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Iona Jones yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei chyfnither, Caren Lewis, ym Mangor ganol Ebrill. Roedd Caren yn 69 oed ac wedi bod yn byw â chanser ers sawl blwyddyn. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Fai 1.

**Merched y Wawr**
Cawsom gwmni byrlymus Linda Brown, Gerlan, yn ein cyfarfod diwethaf a gwibiodd yr amser heibio yn ei chwmni wrth iddi ddilyn troeon ei gyrfa efo ni, o ddyddiau cynnar Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Gwynedd ac yn ddiweddarach wrth gwrs Theatr Bara Caws lle bu'n weinyddwraig am dros 40 mlynedd gan ofalu am tua 129 o sioeau! Er ei bod bellach wedi ymddeol o'r swydd honno dydi Linda ddim yn un i aros yn llonydd am yn hir a'r dyddiau yma mae hi'n gwirfoddoli fel Cyfaill y Gymuned ym Mhartneriaeth Ogwen gan wneud gwaith allweddol bwysig wrth gysylltu ag unigolion, yr henoed yn enwedig, sydd angen amrywiol fathau o gymorth yn y gymuned. Diolch am sgwrs hynod ddifyr, Linda. Paratowyd y baned gan Carol ac Annes ac enillydd y raffl oedd Dilys Parry. Bydd cyfarfod olaf y flwyddyn ar Fehefin 11 pryd y byddwn yn cloi'r gweithgareddau gyda dathliad bach – dros bryd o fwyd mwy na thebyg.

Byddwn yn ailddechrau eto ddechrau Medi ac mae croeso i bawb sydd ag awydd gwneud hynny ymuno efo ni. Rydym yn cyfarfod ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis am 1.30 yn y Neuadd.

**Cyfeillion Rhiwlas**
Cofiwch am y noson **Bingo**, nos Sadwrn, **Mai 25** rhwng 6.15 a 8.30 yn y Neuadd. Mae'r rhain yn nosweithiau poblogaidd felly gwnewch yn siŵr o'ch lle! Felly hefyd y prynhawniau Cacen a Choffi. Bydd y nesaf ar brynhawn Sadwrn, **Mehefin 22** rhwng 1 a 3 yn y Neuadd. Croeso cynnes i bawb.

**Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas - Gwasanaethau'r Sul**
Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Mai 19** - Parch Philip Barnett ;
**Mehefin 9** - Parch Olaf Davies;
**Mehefin 16** – Dr. Jennie Hurd.

Croeso cynnes i bawb.

**Glywsoch chi'r gog?**
Fel y gŵyr nifer yn y pentref mae Rhiwlas yn gyrchfan boblogaidd i'r rhai sy'n awyddus i glywed y gog yn canu. Mae'n un o'r ychydig leoedd yn yr ardal, a thu hwnt wir, lle mae ei chân nodedig i'w chlywed yn gyson bob blwyddyn a phobl yn teithio yma'n unswydd er mwyn cael y profiad. Un fu'n clustfeinio'n astud amdani eleni fel arfer yw Dilys Parry, Bryntirion. Fel yr oedd y Llais ar fin mynd i'r wasg doedd Dilys ddim wedi ei chlywed ond wedi cael ar ddeall fod Ann Williams, Cae Mawr wedi ei chlywed ar Ebrill 18. Siawns erbyn y bydd y rhifyn hwn o'r Llais wedi ei gyhoeddi y bydd mwy ohonom wedi profi'r pleser hwnnw!

Fel un sy'n ymddiddori ym myd yr adar mae Dilys wedi sylwi fod llawer llai o amrywiaeth o adar i'w gweld o gwmpas erbyn hyn. Dal i ddisgwyl i weld y wennol oedd hi ddiwedd Ebrill ac mae ganddi hiraeth hefyd am glywed yr ehedydd, a hithau'n cofio ei chlywed wrth gasglu llus ar y moelydd gynt. Tybed ydi hyn yn brofiad cyffredin i ddarllenwyr eraill y Llais?...

**Cap dros Gymru**
Llongyfarchiadau mawr i Steffan Alford, Caeau Gleision, am ennill ei gap cyntaf dros dîm pêl-droed ysgolion Cymru dan 16 oed. Cynhaliwyd y gêm yn Slough yn erbyn tîm ysgolion Lloegr.

Mae pawb yn falch iawn o dy lwyddiant di, Steffan, ac yn anfon eu dymuniadau gorau iti ar gyfer y dyfodol.



1969
M.HUGHES
A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

BYSUS
D. P. OWENS
RHIWLAS


01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL
A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN

Wel am fis Mawrth prysur a hwyliog! Cawsom fodd i fyw yn Sŵ Caer, a pha sbardun gwell i ddechrau ein thema 'Anifeiliaid'? Cafodd y plant ddiwrnod addysgiadol gan ddysgu nifer o ffeithiau difyr am y llu o anifeiliaid gwahanol sydd yno. Nid oedd hin bosib i ni gerdded heibio'r parciau anhygoel sydd yno, felly cawsom amseroedd chwarae go wahanol y diwrnod hwnnw! Ar ôl cerdded cymaint ar hyd a lled y sŵ, roedd modd gweld pwy oedd yn flinedig wrth weld y llygaid bach yn cau ar y ffordd adref!

Ar fore Dydd Gwener heulog, aeth criw o'r Meithrin a'r Derbyn i fyd o bili palas! Cawsom drip bythgofiadwy wrth arsylwi a dysgu ffeithiau am y Lindys a'r Pili Pala, ac er mwyn sbarduno'r thema 'Y Lindys Llwglyd Iawn'. Roedd y mwynhad i'w weld yn amlwg ar wyneb pob plentyn, atgofion fydd ar gof a chadw am byth.

Fel rhan o'r diwrnod codi ymwybyddiaeth am awtisitiaeth, gwisgodd y plant yn lliwgar gan dalu £1 am y fraint. Llwyddwyd i godi £56, a fydd yn gymorth enfawr wrth brynu adnoddau ar gyfer y Grŵp Enfys. Cafwyd gwasanaeth fel ysgol am awtistiaeth, ac fe luniwyd murlun sydd yn cryfhau'r neges mai un jig-so mawr ydym ni yma'n Abercaseg.

Hoffem fel Ysgol ddiolch o waelod calon i Chloe Moore, sydd yn rhiant acw, am y rhodd ariannol ar gyfer disgyblion y Grŵp Enfys. Llwyddwyd i godi £100, ac fe aeth cyfraniad o'r arian i dalu am fws trydan i Ddreigiau'r Dyffryn. Roedd y plant yn eu gogoniant!

Fel rhan o'n Cynllun Datblygu eleni, rydym yn awyddus i ddatblygu'r awyr agored. Hoffem ddiolch yn ddi-ffuant i C.L.Jones am eu rhoddion caredig. Mi fydd yr ardd a'r ardal tu allan yn bictwr erbyn diwedd y tymor!


CAFFI
COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol


ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi











# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cylch Glasinfryn**
Cafwyd pnawn difyr iawn yng nghyfarfod y Cylch ar 10 Ebrill yng nghwmni Sarah Callon o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Mae Sarah yn Swyddog Prosiect Gweilch y Pysgod yn Llyn Brenig. Yn ei chyflwyniad ‘roedd ei brwdfrydedd a’i hymrwymiad i’r prosiect yn hollol amlwg. Er iddi ddilyn gyrfa mewn bancio, penderfynodd ychydig flynyddoedd yn ôl ddilyn gyrfa newydd a chafodd y swydd yma yn Llyn Brenig. Dywedodd sut oedd twf y Gweilch wedi tyfu o bâr o ddau yn yr Alban i tua 300 mewn lleoliadau nythu yn y Deyrnas Unedig. Pysgod ffres yn unig mae’r Gweilch yn ei fwyta a’r ceiliog sydd yn bwydo’r iâr tra mae hi’n gori. Unwaith mae’r cyw/cywion tua 5 mis oed ac wedi dysgu hedfan, mae’r rhieni yn eu g adael i wneud y siwrnai ar eu pennau eu hunain i Affrica am y gaeaf! Onid ydy natur yn ryfeddol?!

‘Roedd Sarah’n dweud fod gan yr Ymddiriedolaeth N G C nifer o wirfoddolwyr brwdfrydig yn Llyn Brenig sydd yn gwylio a gwarchod yr adar yn ystod y tymor magwraeth, ond maent bob amser yn croesawu mwy i weithio mewn gwahanol rannau yno. Mae llwybrau difyr yn Llyn Brenig, rhai yn addas i gadair olwyn a chysgodfa lle mae’n bosib gwylio’r adar, ac wrth gwrs mae siop a caffi am baned. Gwnaed y diolchiadau gan Glenys. Joc enillodd y raffl mis yma, yn rhoddedig gan Margaret a Kath, a hwy ddarparodd y baned.

Ym mis Mai cawn sgwrs gan Heather Broughton am “Hanes Gerddi Agored”. Yna ar 12 Mehefin bydd Ellie Evans yn dod atom i'n dysgu sut i gadw’n heini drwy wneud loga o’r gadair - edrychwn ymlaen! Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y Ganolfan am 2yp.

**Cydymdeimlo**
Trist oedd clywed am farwolaeth John Wyn Roberts, o Fanceinion, gynt o Bro Infryn, Glasinfryn, yn 79 oed. Cydymdeimlwn gyda’r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Y Bingo Bach**
Braf oedd gweld cynifer yn y Bingo unwaith eto ar 26 Ebrill. Gwnaed elw o £154 tuag at Elusen Parlys yr YmennyddBangor. Mae wyres i un sy’n selog iawn i’r Bingo yn dioddef o’r afiechyd hwn, braf oedd cael cyfrannu at yr achos ym Mangor. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson. Cynhelir y Bingo nesaf ar 24 Mai yn y Ganolfan am 7yh gyda’r elw yn mynd at Gyfeillion Ysbyty Eryri er budd y cleifion sydd yn y Ward Strôc.

**Gwenoliaid**
Wrth ysgrifennu am Weilch y Pysgod uchod, cofiais am olygfa ryfeddol tra yn aros mewn Riad ym Marrakesh yn ddiweddar. Pan oeddwn ar y llawr uchaf, yn yr awyr agored, ‘roedd llu o wenoliad yn hedfan a phlymio yn yr awyr, bron na fuasech yn gallu eu cyffwrdd! Meddyliais bryd hynny mae’n siwr eu bod yn hel eu pac am Gymru fach am yr haf, er nad wyf wedi gweld yr un hyd yn hyn, gobeithio nad yw yn rhy oer yma!!

**Pen-blwydd Arbennig**
Pob dymuniad da a Phen-blwydd Hapus iawn i Mr Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, fydd yn dathlu ei Ben-blwydd yn 80oed ar 4 Mai. Er fod Joe yn byw ym Methesda ers nifer o flynyddoedd, cafodd ei eni a’i fagu yng Nglasinfryn ac mae yn dal yn ffrind da a chymwynasgar i nifer yn y pentref o hyd. Gobeithio dy fod wedi cael diwrnod i’w gofio!

## Calendr Llais Ogwan 2025

Lluniau ar gyfer Calendr 2025 i mewn cyn **23 Mehefin 2024**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu’r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a’r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**


*Cofiwch :*

- *nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i’r llun, a cynnwys eich cyfeiriad a’ch enw*

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2025@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

SIOP OGWEN
**yn cynnig gwasanaeth**
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â’r siop ar y ffôn
**07394 905881**
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**



**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

**Ysbyty**
Drwg gennym glywed fod Maude Griffith o’r Bryn yn yr Eryri ar hyn o bryd. Hefyd, nid yw Adrian wadi bod yn dda. ‘Rydym yn dymuno gwellhâd buan i’r ddau.

**CROESO**
Mae Bernadette a Dei Owen wedi symyd o’r Felinheli i Bryn Derw yn y pentref. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith. Croeso hefyd i Lyric Cottage, Llandygai i Mr a MrsAlobaid a’u tri plentyn o Syria. Mae’r bachgen hynaf newydd ddechrau yn ysgol y pentref.

**Cydymdeimlo**
Mae Mr Ernie Coleman, Morning Side, Y Bryn wedi ein gadael. Roedd wedi bod yn yr Ysbyty ers syrthio yn ei gartref dydd Nadolig. Rydym yn cydymdeimlo gydai deulu.

**Penblwydd**
Mae Mr Robin Jones, Rhif 14 newydd ddathlu ei benblwydd yn 97, ac yn falch fod y siopa yn ail agor yn araf bach. Mae’n mynd ar y bws i’r dref bob dydd.

# YSGOL TREGARTH



### Gweithdai GwyrddNi

Diolch yn fawr i Chris ac Angharad o GwyrddNi am ddod draw i'r Ysgol i gynnal gweithdai diddorol a hwyliog gyda phlant dosbarth Ffrydlas. Braf oedd clywed y plant yn trafod newid hinsawdd a datblygu eu gwybodaeth am ddatrysiadau newid hinsawdd sydd yn ein hardal leol. Edrychwn ymlaen ar gyfer yr Ŵyl GwyrddNi yn Nghanolfan Tregarth ar y 6 o Fai.



### Sgiliau Seiclo

Llongyfarchiadau i flwyddyn 6 yr Ysgol am lwyddo i gwblhau Lefel 1 a 2 o hyfforddiant Sgiliau Seiclo wythnos diwethaf. Pob un wedi datblygu sgiliau gwerthfawr a dysgu rheolau pwysig wrth seiclo ar y ffyrdd. Da iawn chi!

### Clwb Criced

Mae Mr Roberts, Miss Bethan a Miss Jones yn brysur yn hyfforddi plant yn y clwb criced ar gyfer cystadlaethau yn y dyfodol. Mae llawer o hwyl i'w gael yn y clwb sydd yn cael ei gynnal ar ôl ysgol. Diolch i'r staff am roi eu hamser i hyfforddi'r plant.

### Clwb Celf

Dros yr wythnosau diwethaf, mae plant Cyfnod Allweddol 2 wedi bod yn brysur yn gwneud gwaith Celf ar gyfer cystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd. Y thema y flwyddyn hon oedd 'Egni' ac mae'r plant wedi dehongli y thema mewn llawer o wahanol ffyrdd. Bu'r plant yn gwneud lluniau 2D gan ddefnyddio pensiliau lliw, paent dyfrlliw a pasteli olew. Hefyd, bu rhai o'r plant yn creu modelau 3D o raeadr, paneli solar a hyd yn oed can o ddiod egni 'Prime'! Diolch i'r holl blant am eu hymdrech a diolch i Miss Griffith am sicrhau fod y plant yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r clwb a hynny ar ôl ysgol. Pob lwc i chi!



### Canw Cymru

Wythnos yma, daeth Jonathon a Anya o Canŵ Cymru i'r ysgol i roi cyflwyniad ar glwb canŵio 'Slalom Gogledd Cymru'. Mae Caitlin o ddosbarth Ffrydlas yn aelod o'r clwb lleol yn Lanberis sy'n ffocysu ar ganŵ slalom. Hyfryd oedd clywed Caitlin yn trafod ei phrofiad hi ar y dŵr. Cafodd y plant gyfle i ddysgu sut oedd cwrs slalom yn gweithio, i wisgo gwisg pwrpasol i fynd ar y dŵr ac i eistedd mewn kayak. Roedd yn gyflwyniad hynod o ddiddorol ac yn agoriad llygad i lawer o'r plant. Diolch yn fawr i'r ddau.





C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# YSGOL RHIWLAS





**Pen-blwydd arbennig Ysgol Rhiwlas - diwrnod agored**

Eleni mae Ysgol Rhiwlas yn dathlu carreg filltir go arbennig – sef pen-blwydd yn 150 oed. Cynhaliwyd diwrnod agored ddydd Sadwrn 20fed Ebrill rhwng 11am – 3pm i nodi'r achlysur.

Cafwyd diwrnod arbennig, gyda chyfle i bobl grwydro drwy eu hen ddosbarthiadau, edrych ar ffotograffau archif, a hel atgofion dros baned a theisen. Braf oedd cael sgyrsiau a chwmnïaeth sawl cenhedlaeth o gyn-ddisgyblion a chyn-athrawon.

Diolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith trefnu, ac i bawb a rannodd ffotograffau gyda ni.

**Pen-blwydd arbennig Ysgol Rhiwlas - englyn dathlu**

Fel ysgol rydym yn ddiolchgar iawn i'r bardd a'r awdur lleol Annes Glynn am gyfansoddi englyn arbennig i ddathlu pen-blwydd yr ysgol. Cafodd Annes ei hysbrydoli gan arwyddair yr ysgol sef 'dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd'. Diolch am englyn mor arbennig:-

<u>Ysgol Rhiwlas (dathlu'r 150)</u>
Daliodd sawl llaw, creu'r awydd i esgyn
a dysgu o'r newydd,
hybu dawn wna hi bob dydd
er mwyn gweld copa'r mynydd.

**Ymweliad gan HSBC**

Daeth aelod o staff banc HSBC draw i'r ysgol yn ddiweddar i drafod materion ariannol! Roedd yn gyfle i drafod beth ydi gwerth arian a chynilo gyda'r disgyblion. Diolch i HSBC am eu hamser.

**Gwersi tennis**

Mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn derbyn gwersi tennis bob prynhawn dydd Mawrth. Maent wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd, a phwy a ŵyr efallai bod seren Wimbledon y dyfodol ymysg y criw!

**Gwenyn**

Braf yw adrodd bod gwenyn Ysgol Rhiwlas wedi goroesi misoedd hir y gaeaf! Gyda'r tywydd yn cynhesu yn araf bach, mae'r gwenyn bellach wrthi'n brysur yn casglu paill a fydd yn ei dro yn cynhyrchu mêl. Mae'r disgyblion i gyd wrth eu boddau yn gofalu am y gwenyn, ac yn edrych ymlaen at fwy o dywydd braf i fynd allan i helpu gyda'r cwch gwenyn.



**Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru yn 150 mlwydd oed**

Nid dim ond Ysgol Rhiwlas sydd yn nodi carreg filltir arbennig eleni. A wyddoch chi ei bod hi'n 150 mlynedd ers ffurfio Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru? Sefydlwyd yr Undeb ar 27 Ebrill yn 1874 i ddiogelu hawliau ac amodau gwaith chwarelwyr llechi.

Mae cario baneri mewn digwyddiadau undebau llafur wedi bod yn ffordd bwysig o gynrychioli a denu sylw erioed. Felly i nodi'r dyddiad pwysig mae Amgueddfa Lechi Cymru wedi bod yn creu baner gydweithredol drwy weithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol.

Braf oedd croesawu Lowri a Mari o'r amgueddfa i'r ysgol, a bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wrthi'n brysur yn creu panel ar gyfer y faner.

Cafodd y faner ei chario o'r Amgueddfa Lechi at Graig yr Undeb yn ystod digwyddiad dathlu'r pen-blwydd arbennig yma ar 27ain Ebrill, ac mae'n cael ei harddangos yn yr amgueddfa dros fisoedd yr haf.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

## Gwyl Melangell

Eglwys Glanogwen
LL57 3NL
Gwener
24 /5/24
7yh



**NOSON O ADLONIANT**

Raffl

*Chwedlau, Cherddoriaeth, Barddoniaeth...a mwy!*

Martin Daws
Lleisiau'r Mynydd
Pixie
Joanna Melville-Richards
Claire Mace
Jo Munton

Tocynnau: £15
holl elw: Apêl Glanogwen & MAP
sararoberts@cinw.org.uk 07967652981

---

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Mai 28
Mehefin 11 a 25
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

---

## Clwb Coffi Talybont

FESTRI BETHLEHEM
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Mehefin 3 ac 17**
Croeso cynnes i bawb

---

FESTRI CARMEL LLANLLECHID



## TE BACH

**Dydd Llun, 3 Mehefin**
2.30 – 4.00
Croeso cynnes i bawb

---

Eglwys Glanogwen

## Ffair Wanwyn

2-5yp
Sul 26 o Fai
hwyl!

stondinau
£10 am stondin
crefftau
Lluniaeth
cacennau
Planhigion

---

47 fed
## SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN

DYDD SADWRN 1AF FEHEFIN 2024
CAEAU RYGBI BETHESDA
Cartref - Ceffylau
Defaid - Cwn
Peiriannau – Stondinau
Adloniant - Mabolgampau
**Mynediad**
**Oedolion - £6.00**
**Pensiynwyr - £4.00**
**Plentyn - £2.00**



www.sioedyffrynogwen.co.uk

---

CABAN Y GERLAN

## CYFARFOD BLYNYDDOL

Nos Fawrth, 4 Mehefin
am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

---

CEFNFAES (LLAWR UCHAF)

## BORE COFFI

Cymorth Cristnogol
Sadwrn, 18 Mai
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

---

VENUE CYMRU LLANDUDNO

## Cyngerdd
## Côr Penrhyn a'r Black Dyke Band

**Nos Sadwrn, 13 Gorffennaf**
(Gobeithir trefnu bws o Fethesda - Bws wennnol 15 sedd Partneriaeth Ogwen)
**Pris: £10 y pen**
Tocynnau'r cyngerdd ar werth gan aelodau'r Côr
Rhagor o fanylion gan Emyr Roberts
**07876 500101**
emyr.roberts2@btinternet.com

---

# Dyddiadur Boreau Coffi

## 2024

**18 Mai** – Cymorth Cristnogol – Llawr Uchaf Cefnfaes.

**29 Mehefin** – Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen – Llawr Uchaf Cefnfaes.

**28 Medi** – Clwb Gorffwysfan – Festri Jerusalem.

## Pwysig

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

---

Dilynwch
Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

Iaith Pesda
gan Mary Jones

# Ambell Air ac Ymadrodd

### Mynegi amheuaeth

Pan fydd rhywun yn gweld dau mae o'n ei nabod yn sgwrsio efo'i gilydd, er mwyn tynnu coes mi fydd o'n deud wrth un o'r ddau, "Paid â coelio pob dim mae o'n ddeud wrthat ti." Pan fyddai rhywun yn amau rhyw newydd neu stori, yr ymateb fyddai "Ti'n romansio rŵan" a "Ti'n gneud nofals rŵan." Mae'r ddau ddywediad yn cyfeirio at ffuglen, sef llyfrau straeon sy ddim yn wir. Pan fydd rhywun yn gor-ddweud, yr hyn ddwedwn ni ydy "Mae o'n 'mestyn rŵan" neu "Rhaid iti gymryd y stori yna efo pinsiad o halan." Dywediadau eraill yn mynegi amheuaeth ydi "Mae hi'n rhaffu celwydda" a "Ti'n eu rhaffu nhw rŵan", hynny ydy dweud celwyddau un ar ôl y llall. Mae'n bosib bod y dywediadau hyn yn dŵad o'r hen grefft o wneud rhaffau ar ffermydd er mwyn clymu tas a gorchwylion eraill.

**rycsiwns.** Helynt mae hwn yn ei olygu – "Roedd 'na goblyn o ffrae rhyngthyn nhw. Roedd hi'n rycsiwns yno."

**slecs.** Glo mân ydy hwn, ac mae'r gair yn cael ei ddefnyddio fel cymhariaeth – "Mae'r cena' bach 'ma'n mynd fel slecs"; "Mae hi'n gwneud pres fel slecs." Ac meddan ni am rai'n gweithio'n galed, "Maen nhw wrthi fel slecs."

**castiau.** Mae hwn yn debyg i ystyr 'giamocs': "Tydi o'n un garw am neud castia'. Mae o'n llawn tricia."

**tanlli.** Mae hwn y golygu rhywbeth sy'n sgleinio'n arw: "Mae hi wedi cael car newydd sbon danlli.

**malu'n dipiau.** Torri'n ddarnau mân ydy hwn, fel 'torri'n deilchion' – "Mi syrthiodd y jwg a malu'n dipia'."

**siwrwd.** Darnau bychan ydy hwn, tameidiau – "Ma' pry yn y gadar 'ma. Ma'r goes yn siwrwd"; hefyd "Malu carag yn siwrwd."

**twmffat.** Llestr o siâp côn i dywallt hylif i dwll bychan, efo'r naill ben yn llydan a'r pen arall yn fain. Un hwylus i dywallt petrol neu ddisel o gan i mewn i danc car. Mae'r gair yn cael ei ddefnyddio hefyd i ddisgrifio rywun hurt: "Mae o rêl twmffat."

**desgil.** Dyma ddwedwn ni am 'dysgl'.

**potsian, poitsian, poits-i-poits.** Mae'r rhain yn cael eu defnyddio i ddibenion gwahanol: trafferthu – "I be nei di botsian efo fo?"; busnesu neu ddim yn gwneud rhywbeth o werth – "Be wyt ti'n poitsian yn fan 'na?"; cymysgu – "Mae hi'n poitsian rŵan. Dydy hi ddim yn cofio'n iawn."; pan fydd pethau'n mynd o chwith – "Mae hi 'di mynd yn boits-i-boits arnyn nhw.";

**tuchan.** Cwyno mae hwn yn ei feddwl – "Taw, da ti. Wyt ti'n gneud dim byd ond tuchan"

**cargo.** Roedd y gair hwn yn cael ei ddefnyddio i olygu car, er mai ei ystyr go iawn ydy'r nwyddau sy'n cael eu cludo – "Sut ma'r cargo newydd yn gneud?"

**perthyn.** "Mae o'n perthyn i mi" meddai rhywun am rhyw berson arbennig, hynny ydy mae o o'r un teulu â mi. Cawn 'berthyn drwy waed' sef yr un llinach, 'perthyn drwy briodas', sef yng nghyfraith ond hefyd cewch 'berthyn dros gloddia' (clawdd) a gall hynny olygu bod y berthynas mor bell nad oes modd gwybod yn iawn sut.

**troednoeth.** Nid y cyfeiriad at draed heb sanau sydd gennyf yma, ond eto mae'n cyfeirio at rywbeth sydd yn heb ei lawn gynhwysion. "Panad o dê troednoeth, plîs" meddai cwsmer mewn bore coffi, sef paned o dê heb siwgr na llefrith. Er nad oeddwn wedi clywed am gyfeirio at banad fel hyn o'r blaen roeddwn yn bur gyfarwydd gyda'r ymadrodd lobsgows troednoeth, sef popeth o gynhwysion lobsgows heblaw y cig.

**i'r afal â.** Os ydych yn 'mynd i'r afael â' rhyw dasg arbennig yna rydych ym mynd i'w wneud o ddifri' rydych yn mynd i'w ddatrys a'i wneud yn iawn unwaith ac am byth.

### Gennych chi

Geiriau ydy rhain yr ydych chi'r darllenwyr wedi cysylltu â mi yn eu cylch.

**maidd yr iâr**
Diolch i Elfed Bullock am hwn.

Pwy tybed sy'n bwyta bara llefrith bellach! Roedd yn ffefryn gan lawer ers talwm i lenwi twll, neu i'w fwyta wedi anhwylder ar y stumog. Petai chi yn curo wy i mewn i'r bara llefrith yna mi fyddai yn newid i fod yn 'maidd yr iâr'

**lend a benthyg.** Dyma ymadrodd a glywais i yn gyntaf ar C'mon Midffîld mae'n rhaid imi gyfaddef, ond mae Margaret Jones, Tregarth (Perthi) yn ei gofio a'i ddefnyddio. Ydych chi. Mae awgrym yma bod y person yn gofyn am fenthyciad yn ei ôl, neu a oes ystyr arall!

**dallt y dalltings.** Un arall gan Margaret yn awgrymu nad oes wahaniaeth sut mae rhywn yn ystumio pethau bod y person arall yn deall yn union yr hyn sy'n digwydd.

Cofiwch gysylltu Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk Edrych ymlaen i glywed gennych.






## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Diolchiadau**
Mae Mrs. Rita Hughes (y Post) a'r teulu'n dymuno diolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant pan fu farw'r annwyl Hughie; gŵr, tad, taid a hen-daid arbennig.

Maent yn diolch am yr ymweliadau caredig gan deulu a ffrindiau; am y galwadau ffôn; am y blodau hardd a'r cardiau lu, ac am y rhoddion hael er cof am Hughie. Rhannwyd yr arian, £1,200 o bunnau, rhwng Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a Chapel Bethlehem, ble'r oedd Hughie yn aelod ffyddlon.

Coffa da am ddyn cywir iawn.

**Tro ar fyd**
Braf iawn yw gweld Alun Ty'n Hendre ar ei draed ar ôl naw mis o boen a thriniaeth ar ei ffêr. Mae ganddo gryn dipyn o ffordd i fynd nes bydd yn medru ymdopi â gwaith y fferm, ond mae o'n sicr yn mynd i'r cyfeiriad iawn bellach.

Mae Alun ac Anita yn dal i ddiolch am y cymorth parod maent wedi'i dderbyn gan y ffermwyr o'u cwmpas, ac yn rhyfeddu at faint eu caredigrwydd.

**Brysiwch wella!**
Cafodd Ben, 29 Bro Emrys, ddamwain gas ar ei feic cyn y Pasg, a gorfod cael triniaeth fawr ar ei benglin yn Ysbyty Gobowen. Mae o'n gwneud ei ymarferion ffysio'n ddyddiol, ac yn gallu mynd am dro fer ar ei faglau. Y nôd yw cyrraedd ychydig yn bellach bob dydd.

Hwyl iti ar yr arholiadau TGAU, Ben ! Gobeithio na fydd hi ddim yn hir nes byddi wedi cryfhau'n llwyr, ac yn medru mwynhau gwyliau'r Haf.

Dathlodd Nico, 28 Cae Gwigin, ei benblwydd yn saith oed ar ddydd Sadwrn Ebrill 20 ond, ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, roedd yn cael triniaeth yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Ni fu yn ei hwyliau am rai dyddiau wedyn, ond mae 'n dda cael deud ei fod yn dechrau gwella erbyn hyn.

Syrthiodd Alwenna, 1, Lôn Ddŵr yn ei chartref a gorfod treulio noson yn yr ysbyty. Drwy drugaredd, er iddi fod ar y llawr am rai oriau, nid yw wedi torri asgwrn.

Gobeithio dy fod yn teimlo'n well erbyn hyn, Alwenna, a'r cleisiau'n dechrau pylu. Mae'n dda bod gen ti gymdogion a ffrindiau mor ffeind o'th gwmpas.

**Apêl**
Ffrindiau Talybont, plîs gawn ni apelio unwaith eto am newyddion?

Rydan ni wedi colli'r cyfle i ddymuno'n dda i fwy nac un ar gyrraedd ei ddeunaw oed, heb sôn am ddathliadau arbennig eraill. Papur Bro ydi hwn; modd i ddod â thrigolion hen a newydd at ei gilydd i gyd-lawenhau a chydymdeimlo, ond heb eich cymorth caredig chi, bydd y Gohebyddion lleol yn ddi-waith.

### Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)

Mai 26: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.
Mehefin 2: Oedfa.
Mehefin 9: Parchg. Geraint Roberts.
Mehefin 16: Parchg. Hugh Pritchard.
Mehefin 23: Parchg. Cledwyn Williams.
Mehefin 30: Parchg. Gwenda Richards.

Croeso cynnes i bawb.

**Diolch am Rodd Hael**
Dymuna aelodau Bethlehem ddiolch o galon i Rita Hughes, a'r teulu am gyflwyno hanner y rhoddion o £1,200.00 a dderbyniwyd ganddynt er cof am Hughie. Mae rhodd mor hael â £600.00 yn gymorth mawr i gapel bach fel Bethlehem mewn cyfnod pan mae prisiau o bob math wedi codi. Diolch yn fawr iawn.

### GALW ARTISTIAID IFANC TALYBONT A'R CYLCH

Ydych chi eisiau helpu cynllunio a phaentio murlun lliwgar ar yr hen safle bws?

Bydd yr artist Elen Williams yng ngofal y prosiect ac yn awyddus i gyfarfod artistiaid ifanc yn Festri Capel Bethlehem.

**Bore Sadwrn 25ain o Fai am 10.00.**

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn ddiolchgar i Gyngor Gwynedd am y Grant Celfyddydol.

**COFIWCH BORE SADWRN MAI 25ain am 10.00.**

DEWCH A'CH SYNIADAU A'CH BRWDFRYDEDD EFO CHI!

## Y Gerlan

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Pen-blwydd hapus iawn i Nel Roberts Rallt Uchaf ar ei phen-blwydd yn 18oed. Gobeithio dy fod wedi cael diwrnod i'w gofio Nel a bod y dathlu'n parhau!

**BRYSIA WELLA**
Anfonwn ein cofion gorau at Russell Jones, Tŷ'r Ysgol, sydd wedi cael llawdriniaeth fawr yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio dy fod yn mendio'n araf Russell ac y byddwn ni'n dy weld o gwmpas Gerlan yn fuan.

**CABAN GERLAN**
Ar y 13eg o Orffennaf, cawsom fore agored yn y Caban er mwyn cael sgwrs dros baned gydag aelodau'r gymuned a hel syniadau ganddynt am yr yn yr hoffent ei weld yn digwydd yn y neuadd. Diolch i bawb ddaeth atom ni ar y diwrnod - 'roedd yn braf cael eich cwmni.

'Roedd cyfle i bobl gwblhau holiadur ar y diwrnod neu ar lein. Un o'r cwestiynau oedd "pam bod Gerlan yn le arbennig?" 'Roedd yn braf cael darllen yr ymatebion cadarnhaol oedd yn cynnwys "y bobl....prydferthwch....cymuned.... y golygfeydd....lle diddorol....pobl garedig....yr iaith Gymraeg.... llefydd i fynd am dro" a mwy.

'Roeddem hefyd yn gofyn am syniadau i'r dyfodol a chasglwyd amrywiaeth o awgrymiadau yn cynnwys cael siop fach yn y neuadd, nosweithiau bwyd, gofod cydweithio, bingo, paned a sgwrs reolaidd, sesiynau sgwrsio Cymraeg, ioga, clwb cerdded / rhedeg, diwrnodiau garddio a chynnal a chadw'r neuadd, gweithgareddau plant ac ieuenctid a llawer mwy.

Os nad ydych wedi cael cyfle i gwblhau'r holiadur, dyma'r cyfeiriad i chi allu gwneud hynny ar lein: https://forms.gle/eg6K64EdFHjhDT3g6

**CYFARFOD BLYNYDDOL CABAN GERLAN**
Os oes gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy am beth sydd wedi bod yn digwydd yn y Caban a syniadau ar gyfer y dyfodol, mae croeso i chi ddod draw i'n cyfarfod blynyddol, **Nos Fawrth y 4ydd o Fehefin am 7 o'r gloch**. Mae croeso cynnes i bawb.

# Teyrnged i Linda

(sef Linda Yvonne Jones, Sŵn y Nant, Maes y Groes, Talybont, a fu farw ar 21 Mawrth 2024)

Ganwyd Linda yn Smethwick ar gyrion Birmingham yn un o wyth o blant. Teulu dosbarth gweithiol yn byw mewn tŷ rhent yn perthyn i gwmni peirianneg mawr lleol yng nghanol ardal ddiwydiannol gyda'i fwg a'i fudreddi yn nodweddiadol o'r amser. Byddai Linda'n disgrifio fel yr ai adref o'r ysgol weithiau gan deimlo ei ffordd ar hyd ymyl y palmant gan fod y 'smog' yn gorchuddio popeth.

Treuliai lawer o'i hamser cynnar yn y pwll nofio cyfagos a gallai nofio milltir cyn ei bod yn ddeg oed. Roedd hi'n falch iawn o'r lluniau a'r darian oedd ganddi yn ei hatgoffa o'r amser yr ennillodd tim nofio'r ysgol bob gwobr yn y gystadleuaeth sirol un flwyddyn. Hi oedd y capten a hi oedd y nofiwr cyflyma yn ei hoedran. Tipyn o gamp, ac efallai y gwelwyd bryd hynny y dycnwch yn ei natur a fyddai'n rhan o'i chymeriad ac a fyddai'n hanfodol mewn amser i ddod.

Yn gynnar iawn daeth yr Ysgol Sul a bywyd capel yn bwysig iddi, a thrwy hyn cafodd brofiad tra gwahanol o fywyd teuluol lle nad oedd y dafarn a'r bywyd seciwlar yn anorfod. Ymunodd a Brigad y Genod yn y capel lleol a dysgu chwarae'r helgorn (bugle). Nodweddiadol o'i chymeriad oedd derbyn her un flwyddyn i chwarae'r 'reveille' neu'r corn bore (i ddeffro'r gwersyll) ar ben tô stôr fawr Boots yn Birmingham.

Roedd ganddi lais da o'i phlentyndod a nodwyd hyn gan athrawes canu a gychwynnodd roi gwersi iddi. Ond, ni allai ei rhieni fforddio talu ac felly daeth y gwersi cynnar i ben. Ond, ni dderfu'r canu. Maes o law, bu galw arni i fynd oddi amgylch y capeli lleol yn unawdydd fel rhan o'r gwasanaethau. Hefyd, ymunodd fel unawdydd â band efengylaidd llwyddiannus yn teithio Canolbarth Lloegr.

Datblygodd ei bywyd ysbrydol hefyd a chafodd ei derbyn i'r Coleg Beiblaidd yn Abertawe. Dyma brofiad unigryw a'i gwnaeth yn well person, meddai hi. Ond, ni chafodd orffen ei chwrs gan i'w mam gael ei chymryd yn wael iawn a bu raid i Linda ddychwelyd adref i ofalu amdani. Rhywbryd yn y cyfnod hwn roedd y capel yn trefnu côr ar gyfer eu cymanfa flynyddol ac wrth gwrs, roedd Linda yn aelod o'r côr. Un noson ymarfer cerddodd ryw Gymro bach i mewn a datblygodd cyfeillgarwch rhyngddynt, a charwriaeth a barodd am bum deg wyth o flynyddoedd.

Priododd y ddau ar 3ydd Awst, 1968 a chychwyn 'trend' newydd o gael y cinio priodas mewn pabell fawr ond, ddim mor foethus a rhai! Hen babell Scouts ar fenthyg oedd hon ac wedi ei chodi tu wyneb allan. Ond, pwy oedd yn malio, yn sicr nid ein cwpwl ifanc, 'roedd bywyd i'w fyw. Fe brynon eu tŷ cynta mewn pentre bychan o'r enw Yoxall, hanner ffordd rhwng Lichfield a Burton on Trent. Yno buont am bedair mlynedd, ac yn y cyfnod hwn newidwyd eu bywyd am byth, fel y gŵyr pob rhiant! Yn gyntaf, ganwyd Glyn a dilynwyd y fo gan Gareth ymhen ryw ddwy flynedd a hanner. Wedyn symudodd y teulu bach i Gegidfa ger Y Trallwng ac yno ganwyd yr olaf o'r triawd, Gerwyn.

Fuo hi ddim yn hir cyn i Linda gael gwahoddiad i ymuno a Chwmni Opereta Buttington a Trewern. Yn fuan wedyn ac am weddill eu arhosiad yng Nghanolbarth Cymru bu Linda'n perfformio'r prif ran soprano yn nifer fawr o operettas Gilbert a Sullivan.

Mynychodd y teulu bach gapel lleol o fewn gweinidogaeth y diweddar Barch. John Davies. Roedd John yn rhedeg grŵp y Mans sef grŵp o tua hanner dwsin o bobol ifainc fyddai'n dod at eu gilydd unwaith y mis i drafod ac astudio pynciau gyda naws grefyddol iddynt. Cyn hir, gwahoddodd John ein cwpwl ifanc i ymuno yn y sgyrsiau ac i gymryd drosodd yr arweinyddiaeth, heb iddynt sylweddoli fod John wir a'i fryd ar symud porfa, fel a wnaeth maes o law i gymeryd gweinidogaeth yn Wrecsam. Symudodd y cyfarfodydd o dŷ'r gweinidog i dŷ Linda ac Evan a thyfodd y grŵp yn fuan, cymaint fel bu rhaid chwilio am leoliad newydd. O fewn y weinidogaeth roedd capel bach yn y wlad a weddai i'r dim gan mai un ystafell oedd yno, efo cadeiriau rhydd yn lle meinciau. Gallai'r cyfarfodydd felly fod yn llawer mwy amrywiol, yn fwy darluniadol a symudol i gynnwys eitemau fel dramâu, gêmau ac ati. Tyfodd yr aelodaeth yn sylweddol dros y degawd nesaf ac ehangodd y gweithgareddau i gynnwys dramâu cerddorol megis 'Joseff a'i gôt amryliw' ac aethpwyd ar daith i ardaloedd eraill hefyd. Linda wrth gwrs, oedd yn gofalu am y gerddoriaeth a'r cymeriadu efo Evan yn gofalu am y llwyfannu, props a'r goleuo. Hefyd, roedd atyniad mawr bob hâf gyda phawb yn edrych ymlaen am wythnos o wersylla neu aros mewn neuaddau. Mawr oedd y cyffro wrth i'r Land Rovers, a'u trelars dan eu sang, ymlwybro i lawr cyn belled â Solfach yn y de a Phen Llŷn i'r gogledd.

Fel ai'r amser ymlaen a'r ystod oedran yn ehangu, gofynnodd y rhai hŷn am gyfarfod ar wahan er mwyn iddyn nhw gael trafod pethau'n ddyfnach. Dyma gychwyn cyfarfodydd eto yn eu cartref, yn y Foel, Llangadfan y tro hwn, a'r naws ac asbri bywiog yn deillio o onestrwydd y trafodaethau. Braf oedd clywed yn ddiweddar am y ffydd oedd gan rai o'r genod yng nghwmni Linda fel eu bod yn gallu gofyn cwestiynau anodd a pherthnasol i'w hoedran gan wybod y byddai cariad a diffuantrwydd yn ei hatebion. Pa well teyrnged a ellir ei gael na'r datganiad a gafwyd yn ei hangladd gan gyn aelod, sydd ers blynyddoedd bellach yn uwch feddyg ac athro meddygol yn Sheffield, yn dweud "bod Linda wedi ei ddysgu i garu'r Iesu."

Ym 1985 symudodd ein teulu i Faes y Groes ger Tal y Bont, a dyma pryd y cafodd Linda gyfle i ymestyn ei phrofiad canu. Dyma'r amser y ffurfiwyd Cwmni Opera Gogledd Cymru, a'u cynhyrchiad cyntaf oedd "Priodas Figaro" gyda Linda yn cymeryd rôl Susana. Aeth y cwmni ar daith drwy Ogledd Cymru ac ar ôl ymddangosiad yng Nghonwy daeth Linda i sylw y gantores opera fyd enwog yn y 50au a'r 60au, Joan Carlyle. Gwahoddodd Linda i gael gwersi a sefydlwyd perthynas a barodd hyd ymddeoliad Linda yn 60 oed, a nodwyd y garreg filltir honno trwy recordio cryno ddisg. Dyma'r cyfnod y cafodd gyfle i ddysgu rhai o ganeuon mawr y byd opera gan gyfansoddwyr megis Verdi a Puccini. Ym 1988 cystadlodd Linda am y tro cyntaf a hynny yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Enillodd yr unawd soprano cyn mynd ymlaen i ennill y Princeps Cantorum, neu'r ruban glas.

Dros y blynyddoedd bu'n canu ar lwyfannau Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r Gororau. Trefnodd Joan Carlyle nifer o gyngherddau mawreddog ac yr oedd Linda o hyd yn rhan anatod o rhain. Joan fu'n annog Linda i fynd am wrandawiadau i Lundain. Ond, ar ôl gweld a phrofi dwyster ac unigrwydd y byd cystadleuol hwn fe sylweddolodd ddifrifoldeb y peth a gofynnodd iddi ei hun " Ydw i wir eisiau hyn?" cyn dod i'r penderfyniad gan ddweud "Evan, 'rwyt ti a'r hogia gen i, mae hyn werth y cyfan i mi".

Roedd Linda wrth ei bodd yn gweld a rhannu profiadau yr hogia wrth iddyn nhw ddatblygu i fod yn ddynion gyda'u gwaith, eu gwragedd a'r plant. Cafodd bleser mawr yn cyfrannu at fagwraeth ei hwyrion a'r un wyres. Doedd dim yn plesio mwy na phan fyddai pawb yn ymgynnull yn Sŵn y Nant gyda'r holl chwaraeon a'r miri yn parhau dan dywyllwch a wedyn cael noson sinema gyda'r plantos a gofalu bod digon o 'popcorn' a 'chocolate buttons' ar gael. Roedd hefyd yn eu diddanu efo straeon o'i phrofiadau trwstan yn ei ffordd hwyliog a dihafal ei hun.

Hefyd, roedd pobol yn bwysig iddi. Roedd yn mwynhau cwmni a sgwrs gyda diddordeb diffuant ynddynt fel unigolion, a'i chas beth oedd anghyfiawnder mewn unrhyw ffurf. Os gallai fod o gymorth neu unioni'r ffordd i rywun, fe wnai hynny. Wrth feddwl amdani mae rhai o'r gwynfydau yn dod i'r cof, "y rhai sydd a syched am gyfiawnder" ac "y rhai pur o galon".

Diolch am gael rhannu 'mywyd efo hi.

Evan.

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

**Gan Andre Lomozik**

RHAN 18

**12 a 13 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Teulu **John Williams** o Gapel Curig oedd yn byw yn rhif 12 Ogwen Terrace, Bethesda yn y flwyddyn 1871. Cigydd oedd John ac roedd wedi priodi gyda Mary Anne o Fethesda. Yn ôl y cyfrifiad, ganwyd John a Mary ei wraig ym 1824. Roedd tri o blant yn fyw ganddynt adeg cyfrifiad 1871 ond bu farw dau blentyn arall cyn y cyfrifiad yma, sef Mary Anne, a fu farw yn ddwyflwydd a deufis oed ym 1862, a Margaret yn bedair oed a deng mis ym 1866. Enwau'r plant a oroesodd oedd Ellen, a anwyd ym 1851, Jane ym 1855, a Lizzie ym 1858. Roedd ganddynt forwyn o'r enw Jane Pritchard, yn enedigol o Rhiwlas, a gwas/cigydd cynorthwyol o'r enw Owen Williams, wedi ei eni yn Sir Fôn, ac yn byw yn y tŷ gyda hwy.

Cawn yr adroddiad cyntaf am John Williams yn y *North Wales Chronicle* Chwefror 21, 1880, tud. 8. o dan yr adroddiad *National Provincial Bank of England, persons of whom the company or partnership consists.*

Erbyn cyfrifiad 1881, roedd John, Mary Ann ei wraig, a dwy o'i ferched, sef Ellen a Jane, yn dal i fyw yn y tŷ ynghyd â gwas o'r enw John William Jones o Fiwmares, a morwyn, Ann Roberts, o Gaernarfon.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach (Chwefror 15, 1890, yn y *NWC*), mae adroddiad arall yn ymddangos, yn nodi marwolaeth wyres John Williams, Cigydd, 12 Ogwen Terrace, Bethesda, sef Louisa M. Rowlands, yn 8 oed. Merch ydoedd i 'r diweddar Mr Peter Rowlands, Bangor.

Ar y garreg fedd ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen, ble claddwyd Louisa, ceir yr arysgrif hwn:

*In Loving Memory of Peter Henry Rowlands, (Late accountant National Provincial Bank Narbeth) 12 Ogwen Terrace Bethesda, Born 23$^{rd}$ 1855, Fell asleep May 19$^{th}$ 1884, A sudden grief, a shock severe, To part with*



*one we loved so dear, The blow is great, we will not complain, But trust in Christ to meet again. Also of Louisa Mary, the dearly beloved and only child of the above named, who fell asleep February 4$^{th}$ 1890, aged 8 years.*

Mae Elizabeth, gweddw Peter Henry Rowlands, wedi dod yn ôl i fyw yng nghartref y teulu. Tri deg tri oed oedd Elizabeth y flwyddyn yma ac roedd wedi colli gŵr a merch ymhen ychydig flynyddoedd o'i phriodas.

Roedd morwyn newydd yn cael ei henwi yn y cyfrifiad am y flwyddyn yma, sef Jane Jones, 22 oed ac wedi ei geni yn Tregarth.

Bu farw gwraig John Williams yn 1897, rai blynyddoedd cyn cyfrifiad 1901, a gynhaliwyd Mawrth 31, 1901, a dim ond ei ddwy ferch, Ellen a Elizabeth, a morwyn o'r enw Maggie Williams yn enedigol o Bethesda, oedd yn y tŷ gyda John. Yna ar y 1$^{af}$ o Ebrill 1901, drannoeth i ddydd y cyfrifiad, bu farw John Williams yn 76 oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent Glanogwen gyda'i wraig. Mae hysbysiad yn ymddangos yn *Yr Herald Cymraeg* ddydd Mawrth, Mai 7$^{fed}$ 1901, yn hysbysu unrhyw un a oedd yn credydwr neu fel arall i gysylltu ag R. O. Roberts ac Ellis Davies, cyfreithwyr, Caernarfon, cyn Mehefin 3, 1901.

Erbyn cyfrifiad 1911, Ellen, a oedd yn cael ei henwi fel pen teulu yn 60 oed, a'i chwaer, Elizabeth Rowlands 53 oed, oedd yn byw yn y tŷ, ac maent yn nodi nad oes ganddynt swyddi.

**13 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Fferyllydd o'r enw **Godfrey Goodman** a'i deulu oedd yn byw yn rhif 13 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871. Ganwyd Godfery yn Sir y Fflint yn y flwyddyn 1835, a'i wraig, Sarah, yn Nhreffynnon yn y flwyddyn 1836. Roedd ganddynt fab a merch, Emily a anwyd ym 1861 ym Magillt, a Francis, a anwyd yn Lerpwl ym 1864. Roedd morwyn o'r enw Margaret Thomas yn byw gyda hwy ac fe'i ganwyd hi yn Llanwenllwyfo, Sir Fôn.

Nid wyf wedi darganfod teulu Goodman yng nghyfrifiad 1881, ond roeddent wedi symud o Fethesda oherwydd mae gŵr sengl o Sir Fôn, o'r enw **Henry Parry**, a oedd yn byw yn 13 Ogwen Terrace, gyda gwas a morwyn. Robert Roberts, 13 oed o Gaernarfon, oedd y gwas ac Elizabeth Thomas, 19 oed, oedd y forwyn, hithau wedi ei geni yng Nghaernarfon. Masnachwr lledr oedd Henry Parry, ac yn 28 oed.

Erbyn cyfrifiad 1891 roedd Henry wedi priodi gyda Martha, 30 oed ac yn enedigol o Aberffraw, Sir Fôn. Roedd tri o blant wedi eu geni iddynt, sef William Henry, 1883, Martha C. 1885, ac Owen John a anwyd ym 1890. Roedd yno forwyn o'r enw Margaret Ann Owen, yn 19 oed, wedi ei geni ym Methesda. Fodd bynnag, daeth trychineb y flwyddyn hon i deulu Henry a Martha, canys bu Owen John farw yn flwydd a naw mis oed, ar y 5$^{ed}$ o Orffennaf 1891, ac mae'r adroddiad i'w weld yn *Y Drych*, 30$^{ain}$ o Orffennaf, 1891, ac mewn sawl papur arall o'r cyfnod.

Nid oes adroddiad arall am Henry Parry yn y newyddiaduron tan 1896, pan mae hysbysiad ganddo yn ymddangos yn *Y Genedl Gymreig* fod ganddo stoc fawr iawn o ledr mewn llaw, ac roedd yn cynnig prisiau rhesymol arnynt.


Mae adroddiad am sioe amaethyddol Bethesda yn ymddangos ar y 25$^{ain}$ o Awst, 1899, lle mae William Henry Parry, mab hynaf Henry, yn dod yn ail gydag afalau gaeaf mewn un o'r cystadlaethau.

Deuir ar draws hysbysiad arall am Henry, yn y *South Wales Daily News*, Mehefin 23$^{ain}$ 1900, yn derbyn gorchmynion am esgidiau.

Y mis canlynol, mae adroddiad yn *Baner ac Amserau Cymru*, 22$^{ain}$ o Orffennaf, yn adrodd fod Mr Henry Parry gwerthwr esgidiau, Ogwen Terrace, Bethesda, wedi mynd yn fethdalwr, gyda amcangyfrif o'r ddyled yn £426-9s-4c. Mae'r adroddiad yn dweud fod busnes Henry wedi bod yn un llwyddiannus hyd y trafferthion yn Chwarel y Penrhyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gan fod y rhan fwyaf o'i werthiant i'r chwarelwyr, roedd y busnes wedi dioddef ac roedd yr arian a oedd yn ddyledus iddo gan chwarelwyr y fro.

Yn *Y Werin*, dyddiedig Hydref 25, 1900, mae'r adroddiad canlynol yn ymddangos:

*Lot 5 (In Bankruptcy). – Re Henry Parry.- By order of the Trustee).- The Leashold Dwelling*



LLEDR.

DYMUNA

HENRY PARRY,

LEATHER MERCHANT,

13, OGWEN TERRACE, BETHESDA,

Wneyd yn hysbys i'w luaws cwsmeriaid a'r wlad yn gyffredinol fod ganddo LEDR, &c., am brisiau isod:

BEADS goreu, 17lbs, am 1s 6½d per pound.
Eto " 16lbs, am 1s 5d "
" " 14lbs, am 1s 4d "
SCOTCH SLEETERS goreu am 1s 7d per lb.
SPLIT " " 10½d "
HARNESS HIDE, 30lbs am 1s 3½d per lb.
RIVETS PRES, 6½d per lb. ETO, HAIARN, 2½d
Mewn Bags 14 lbs.
TOPS ESGIDIAU o bob math o 5s i 6s 6c y par, am y cedwir stoc fawr ar lawr.

Danfonir pob order dderbynir drwy'r post yr un dydd ag y daw i law. Y telerau yw 6c y bunt mewn mis, neu bedwar mis o Credit.

*House, Shop, and Premises, No. 13 Ogwen terrace, Bethesda. Term, 56 years, from November 12th Ground Rent £5-10s.*

Yna, ar y 9fed o Dachwedd, 1900, yn y *North Wales Express* gwelir fod prydles y tŷ, siop ac adeilad yn cael eu cymryd gan Mr Edwards, Pant Caerhun, am y swm o £275.

Nid oedd pethau'n well i Henry yn Ionawr, 1902, pan ymddangosodd yn Llys yr Ynadon, Bangor. Mae John Thomas, fferm Tyddyn Du, yn hawlio 14s am lo roedd wedi ei werthu i Henry. Yn ei amddiffyniad mae Henry yn dweud nad oedd y llo mewn cyflwr da pan dderbyniodd yr anifail. Dyfarnwyd yn ei erbyn.

Mae prydles y tŷ yn cael ei hysbysebu eto ar yr 28ain o Dachwedd 1905, yn *Yr Herald Cymraeg*: *BETHESDA, SALE OF DESIRABLE LEASHOLD PROPERTY. Mr John Pritchard will Sell by PUBLIC AUCTION, by order of the Morgagees, at the Bethesda United Club, on Saturday, December 4th, 1905, at 2.30p.m. Lot 1. All that Excellent DWELLING-HOUSE, SHOP and PREMISIS, 13 Ogwen Terrace, Bethesda, late in the occupation of Mr Henry Parry, Bootmaker. Possession on completion. Tenure 34 years from November 12th, 1905. Ground rent £5 10s.*

Nid oes unrhyw adroddiad arall ynglŷn â Henry Parry yn ymddangos yn y newyddiaduron ar ôl y dyddiad yma, felly mae'n debygol fod Henry a'i deulu wedi gadael 13 Ogwen Terrace cyn neu'n fuan ar ôl y dyddiad yma. Yn wir, nid yn unig roeddynt wedi ymadael ag Ogwen Terrace, a Bethesda, ond roeddynt wedi gadael Cymru. Yng nghyfrifiad 1911, mae'r teulu i'w canfod yn byw yn rhif 81, Stryd Cameron, Lerpwl, gyda Martha yn cael ei nodi fel pen teulu, a William Henry Parry yn 28 oed ac yn gweithio fel '*Shipping clark*'. Nid oedd bywoliaeth Gladys yn cael ei nodi er ei bod yn 19 oed, ac roedd Elsie Mary Parry yn 12 ac yn mynychu'r ysgol.

Mae dyn o'r enw Henry Parry, a oedd wedi ei eni yng Nghymru, yn cael ei nodi yn y cyfrifiad hefyd, ond roedd o yn byw yn rhif 29 Rufford Rd. Elgin Park, Lerpwl, ac yn gweithio fel '*estate agent book keeper*'. Roedd yn cyfeirio mai gŵr sengl oedd o, ond mae'r ffaith ei fod o'r un enw ac oed â'r Henry Parry a oedd yn byw ym Methesda yn gwneud i rywun dybio mai dyna pwy oedd o. Am ba reswm roedd o'n byw fel lletywr mewn cyfeiriad arall, nid yw'n hysbys.

(i'w barhau) mis nesaf rhif 14 Rhes Ogwen

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Cystadleuaeth Côr Cymru 2024**
Llongyfarchiadau i Gôr Glanaethwy ar gipio'r wobr 1af yng nghystadleuaeth 'Corau Cymysg' a gynhaliwyd ganol mis Ebrill. Pob lwc yn y rownd derfynol!

**Morynion y Gwaed**
Pe byddech wedi bod yn ffodus i gael tocynnau i'r cynhyrchiad hwn gan Ysgol Glanaethwy, byddech wedi cael noson werth chweil. Sioe gerdd newydd oedd hon wedi ei seilio ar gainc gyntaf Y Mabinogi, sef Pwyll Pendefig Dyfed.

Llwyddodd y sioe i ddiddanu'r gynulleidfa gydag actio a chanu o'r radd flaenaf, ac mae angen llongyfarch pob agwedd o'r cynhyrchiad.

### Eglwys Sant Cedol, Pentir

**Diolchiadau**
Hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd y prynhawn Cacen a Choffi yn Neuadd Bentref Rhiwlas ddydd Sadwrn,13 o Ebrill, a hefyd i Sharon a Gill a drefnodd y gweithgaredd a pharatoi yr holl cacennau. Mae'r elw yn mynd tuag at Gronfa Atgyweirio Eglwys St. Cedol. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Catherine a Marc are enedigaeth eu mab bach Elis Matthew, wyr bach i Alison a Mike, a gor-wyr i Mrs. Valerie Amos, Bethesda a Mr & Mrs Phil Roberts, Rhiwlas.

**Te Bach**
Mae eglwys St.Cedol yn cynnal Tê Bach ar y prynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch. Bydd y Tê Bach nesaf ar y 5ed o Fehefin. Mae croeso cynnes i chwi i ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb- croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch â'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen: gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521, a chofiwch bod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

**TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com



**MODURDY FFRYDLAS**
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison

**Gareth Williams**
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
**A.G.L.**
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

# CHWILAIR



## GWLEDYDD AFFRICA



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | A | D | N | A | W | R | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H |
| U | Z | M | X | E | T | H | I | O | P | I | A | **T** | V | A | D | D | N | A | P |
| A | U | Q | U | S | O | A | F | R | P | Y | **U** | Q | Z | G | R | H | C | U | M |
| W | N | O | Y | K | R | I | L | A | S | **N** | S | Z | U | T | F | D | X | U | P |
| W | R | H | C | E | Q | H | W | G | **I** | U | E | H | O | Y | E | E | G | E | O |
| M | H | E | P | N | T | T | C | **S** | E | B | D | B | C | U | U | J | P | L | T |
| M | I | V | V | Y | D | C | **I** | B | B | R | F | A | R | F | O | G | J | V | I |
| I | A | R | R | A | X | **A** | I | M | H | T | I | T | N | O | S | K | O | P | W |
| R | C | C | M | K | C | B | O | R | C | X | V | A | R | Y | H | S | T | M | R |
| E | I | F | Y | J | D | Z | H | B | C | W | O | S | C | R | A | I | X | N | I |
| L | R | X | J | J | M | B | W | T | E | X | M | D | X | K | F | U | P | C | Q |
| Y | F | O | I | A | L | F | E | R | Z | Q | R | O | C | T | D | G | W | S | L |
| Z | F | E | B | D | E | A | J | K | J | C | L | A | N | L | R | V | O | G | J |
| P | A | W | P | N | G | S | O | W | J | J | I | Q | U | O | L | F | S | V | T |
| X | E | A | E | A | U | G | H | S | L | R | Z | E | A | C | F | X | I | W | T |
| Z | D | I | H | G | K | V | A | G | E | B | N | K | A | O | D | S | I | K | O |
| G | D | B | H | U | B | S | I | B | U | R | O | X | A | R | G | X | R | A | E |
| E | K | I | K | D | A | Z | I | M | B | A | B | W | E | O | N | T | O | G | W |
| B | M | L | B | J | R | L | F | U | N | K | B | Z | E | M | B | B | C | U | Y |

Yn y Chwilair mis yma MAE DEUDDEG GWLAD YN AFFRICA i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn <u>**un**</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 30 Mai. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Mae fy niolch yn fawr iawn y mis yma i Emrys Griffiths, Rhosgadfan am awgrymu'r testun ar gyfer y Chwilair. Nid oes cyn gymaint o bwysau arnaf i ddod o hyd i destun wrth dderbyn awgrymiadau ar gyfer y Chwilair.

Llawer ohonoch wedi darganfod NEST ROBERTS yn y Chwilair mis diwethaf yn lle ERNEST ROBERTS. Felly mae'n rhaid bod yn ofalus iawn pan yn dod o hyd i'r ateb.

**Dyma atebion Chwilair Ebrill:-** Caradog Prichard; Dafydd Orwig; Edward Oliver; Emlyn Evans; Ernest Roberts; Goronwy Roberts; Jenny Thomas; John Elwyn Hughes; John Ogwen; J. O. Williams; R. Williams Parry; Thomas Morris.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Rosemary Williams, Tregarth; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Judith Hughes, Llangoed; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Carys Parry, Caerhun; Eirwen Owen, Erw Las; Ogwena Jackson, Gerlan; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge, Bangor; Huw Williams, Erw Las.

**Enillydd Ebrill oedd:-** Barbara Anne Conlan, 53, Glanogwen, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3PG.

# Natur o'n Cwmpas



Bryn yr Hwyaid, Nant Ffrancon

## Enwau Creaduriaid yn ein Henwau Lleoedd (Rhan 2)

Yn y rhifyn diwethaf, y merlod mynydd, y ceirw a'r cŵn hela oedd yn cael sylw, a'r tro hwn cawn ystyried enwau lleoedd yn ein rhan ni o Eryri sy'n cynnwys enwau rhai creaduriaid eraill.

Beth am y gwartheg? Y buchesi oedd yn pori'r llethrau a'r gweundiroedd uchel cyn i ddiadelloedd y defaid gymryd eu lle, ac mae Clogwyn y Tarw a Llwyn y Tarw yng ngheg Cwm Idwal. Yn yr Oesoedd Canol, roedd brenhinoedd a thywysogion Gwynedd yn cadw buchesi niferus iawn gan mai dyma ran o'u hasedau fel llywodraethwyr y deyrnas. Felly, roedd bri ar y wartheg duon a'r gwartheg gwynion â chlustiau cochion, hen fridiau Cymreig y mae cyfeiriad atynt yng Nghyfraith Hywel Dda.

A beth am greaduriaid eraill? Yng ngheg Cwm Caseg mae cwm bychan o'r enw Cwm Cadno. Mae hyn yn ddiddorol gan mai 'llwynog' yw'r enw cyffredin ar yr anifail hwn yn Arfon, a 'madyn' mewn rhai ardaloedd. Uwchlaw Cwm Pen Llafar, y tu ôl i'r Mynydd Du, mae Cwm Moch, a gall fod yn cyfeirio at foch gwyllt gan fod llethrau'r mynyddoedd yn goediog iawn yn yr Oesoedd Canol.

Heb fod ymhell, rhwng y Mynydd Du a Foel Meirch, mae Pant yr Ychain. Hen ffurf ar y gair 'ychen' yw 'ychain', a'r ych oedd yn cael ei ddefnyddio i dynnu'r aradr cyn amser y ceffylau gwedd. Rhwng Mynydd Perfedd a'r Foel Goch uwchlaw Nant Ffrancon, mae Cwm Bual. Dyma enw diddorol, gan y gallai olygu ych gwyllt neu fath arbennig o garw, sef danas. Ar ochr Llefn uwchlaw Llyn Coch yng Nghwm Ocwm mae Pant yr Ieir, Mae'r enw'n cyfeirio at ieir mynydd, sef grugieir, ac mae gobaith y gwelir yr adar hyn eto ym Mhant yr Ieir gan fod y grug yn ail-gydio ar Foel Wnion.

Awn i fyny'r Nant, ac at Fryn yr Hwyaid, y graig lefn ar lan Marddwr Ogwen rhwng ffermdai Maes Caradog a Braich Tu Du. Daw llawer i astudio'r graig hon gan ei bod yn enghraifft o graig a lyfnhawyd gan y rhewlif wrth iddo symud i lawr Nant Ffrancon adeg y dadmer mawr ar ddiwedd Oes y Rhew. Term rhyngwladol y daearegwyr a'r daearyddwyr am y math yma o graig yw'r enw Ffrangeg *roche moutonnée*, a'r term Cymraeg yw 'craig follt' am ei bod fel cefn dafad. Mae'n fwy na phosib mai cyfeiriad at hwyaid gwylltion yw'r enw Bryn yr Hwyaid oherwydd roedd hesg ar ddwy lan yr afon yn y llecyn hwn ers talwm, a hynny'n cynnig lloches iddynt nythu'n agos at y dŵr. Gwelir hyn yn glir ym mhaentiad yr arlunydd o Sais, William George Shrubsole (1856-1889), o'r hen bont a'r pwll islaw iddi. Roedd hynny ymhell cyn i'r peiriannau dyrchu a chrafu gwely'r marddwr a newid ffurf y torlannau.

Rhof sylw i greaduriaid eraill y tro nesaf.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*

# Nyth y Gân

### BRAIN

Cadw hwyl yn y coed o hyd, a nythu
A wnaethant mor ddiwyd,
A chael byw uwchlaw y byd
Â'u hunllais yn gôr swnllyd.



### CYMYLAU

Ni welwn ni fyth eto
Gymylau fel y rhain
Yn cuddio copa'r mynydd
Mor gyflym ac mor gain.

Un llwydaidd yw'r olygfa
O weld y ffasiwn rai
Yn ffurfio o flaen ein llygaid
Fel mwg o gyrn y tai.

Wrth wylio hyn am amser
Rhyfeddwn atynt hwy
Yn creu y fath ddarluniau
Heb bensil uwch ein plwy'.

### Y CHWARELWR

Y cynion a'r craig honno a ddenodd
Yno ddyn i frwydro;
Naddion fu'r clogwyn iddo,
Ei fyd o'i ddawn fwydodd o.

Fe ddaliodd ef â'i ddwylo y meini,
A mynnodd eu rhwygo
Yn dyrrau drwy hir daro,
Yn drwch oer drwy'i ymdrech o.

Y dur a gadd ei daro yn fedrus,
Yn ddilys â'i ddwylo,
A gwaniodd y graig yno
Yn llwyr gan ei ebill o.

O fore bu'n llafurio, a'i gynion
A ganodd wrth rwygo;
Cynnal wnaeth y craig honno
Deulu'n tŷ drwy'i dalent o.

**Dafydd Morris**

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



# Côr y Penrhyn a Hogia'r Bonc yn Carlow

Ar y 5ed o Ebrill teithiodd y côr i Carlow yn Iwerddon i gystadlu yn yr Ŵyl Ban Geltaidd, Roedd y côr yn cystadlu mewn dwy gystadleuaeth, sef cystadleuaeth "Corau Meibion" ac yn y gystadleuaeth "Agored".

Meddai Alun Davies sy'n canu efo'r adran baritone, "Ar y nos Wener cafwyd hwyl a sbri yn Noson Lawen Cymru pan ganodd y côr ein fersiwn ni o "Yma o Hyd" gan Dafydd Iwan, a hynny, yn anarferol, i gyfeiliant gitâr." Cyn ychwanegu, "Roedd aelodau'r gynulleidfa wedi eu plesio'n fawr gan gyd-ganu nerth eu pennau gyda'r côr.".

Ar fory Sadwrn roedd angen cychwyn yn weddol fuan o'r gwesty er mwyn bod yn y ganolfan cystadlu, ac fel pob gŵyl neu eisteddfod arall gorfod disgwyl peth amser am ein tro i berfformio.

Y gystadleuaeth gyntaf oedd gornest y Corau Meibion gyda dau ddarn digyfeiliant, a dewisodd y côr ganu "Oleuni Bendigaid Duw" a "Pererin Wyf", ar dôn "House of the rising sun".

**Pobl yn eu dagrau.**

Yn y prynhawn 'roedd y côr yn y gystadleuaeth agored, yn erbyn chwe chôr arall ond y tro hwn fe ganodd Côr y Penrhyn ddwy gân gyda chyfeiliant, sef "Mor Fawr Wyt Ti" a "Gwinllan a Roddwyd". Llwyddwyd i berfformio dau berfformiad penigamp, gyda nifer o'r gynulleidfa yn eu dagrau wrth wrando ar ein perfformiad pwerus o "Gwinllan". Teimlad o falchder ac emosiwn dwfn i rai fel Maldwyn Pritchard oedd bod yn rhan o ganu mor deimladwy am ei wlad a'i iaith. "Daeth sawl deigryn i fy llygaid a'm calon innau wrth weld ymateb y gynulleidfa," meddai Maldwyn.

**Hogia'r Bonc yn ei "morio" hi.**

Cafodd Hogia'r Bonc berfformio hefyd yn y Noson Lawen gan roi eu fersiwn hwy o "Strydoedd Aberstalwm." Er iddynt ganu'n dda, clywyd ambell sylw gan aelodau'r gynulleidfa yn cwyno nad oedd sain y sustem uwchsain o'r safon uchaf ac oherwydd hynny ddim wedi gwneud cyfiawnder â pherfformiad yr hogia. Roedd Walter Williams wrth ei fodd yn yr ŵyl ac fel y dywedodd, "Mi gafwyd hwyl fawr yn dilyn y perfformiadau a mynd i ysbryd yr ŵyl yng nghanol ein cyd-Gymry".

Yn y prynhawn hefyd cafodd Hogia'r Bonc gyfle i gystadlu yn y gystadleuaeth Canu Draddodiadol, oedd yn gofyn am ddwy gân ddigyfeiliant, unsain. Dyna i chi dasg!

Fe ddewisodd yr hogia ganu "Cyfri'r Geifr" a " Hen Feic Peniffardding fy Nhaid". Fe gafwyd cymeradwyaeth dda i'r ddau ddarn, ond yn enwedig felly i'r ail ddarn pan ofynnodd Alun i'r gynulleidfa ymuno drwy sefyll ar eu traed a gwneud y symudiadau o fynd i fyny ac i lawr. Yn wir, mor boblogaidd oedd hynny nes i'r ddau feirniad gymryd rhan hefyd.

Gyda'r nos 'roedd y gwobrwyo, ac fe gafodd Côr y Penrhyn yr ail wobr yn y gystadleuaeth Côr Meibion, gyda Hogia Llanbobman yn fuddugol. Enillwyr y gystadleuaeth agored oedd Côr Ysgeifiog.

Yn dilyn gwobrwyo'r prif gystadlaethau, 'roedd gwobrau (cwpan ac arian) i'r perfformiad gorau na chafodd ei wobrwyo yn y cystadlaethau hynny, ac fe 'roddwyd hwnnw i Hogia'r Bonc am eu perfformiad o "Hen Feic Peniffardding fy Nhaid", a hynny'n sioc fawr i'r hogia. Fel arfer, Twm Bach ydy arweinydd y symudiadau. Yn anffodus roedd Twm yn dal i deimlo o dan y don ar ôl y fordaith ar draws y môr o Gaergybi i Ddulyn a bu raid perfformio hebddo y tro hwn,

Er hynny cafodd yr hogia gwpan a gwobr o €200, sydd, erbyn hyn wedi'i gyfrannu i elusen Hosbis Dewi Sant.

Hoffai'r hogia diolch i Rheinallt Davies am ymuno gyda nhw i ganu yn yr ŵyl.

Felly, gŵyl arbennig o dda, a chafodd pob aelod o Gôr y Penrhyn a Hogia'r Bonc benwythnos wrth eu boddau.

**(Diolch i Alun Davies am ei gyfraniad i gynnwys yr erthygl uchod)**



Y côr yn canu yn y gystadleuaeth gorawl lle cafwyd derbyniad neilltuol o gynnes a gwobr am y perfformiad.



Hogia'r Bonc ar ôl derbyn eu gwobr yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Carlow, Iwerddon


MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

## Cyngor Cymuned Bethesda - Ebrill 2024

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 25ain o Ebrill yn rhithiol dros Zoom.

### Glanhau'r Gofeb

Adroddwyd fod y Clerc wedi bod mewn cyswllt gyda 'Commonwealth War Graves Commission' a'u bod nhw wedi cytuno i lanhau'r gofeb yn rhad ac am ddim. Rhagwelwyd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ymhen tua 4 wythnos.

Rhaglen Canol Trefi – Cynllun Finyl

Yn ôl ym mis Gorffennaf 2023 cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ddyraniad ariannol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ei chyfanrwydd gyda dros £1.8m wedi ei glustnodi ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau o fewn y Rhaglen Canol Trefi. Un cynllun sydd ar waith o fewn y rhaglen yma yw Cynllun Finyls. Bwriad y cynllun hwn yw cyfrannu tuag at wella edrychiad eiddo a safleoedd gwag o fewn canol trefi Gwynedd drwy osod finyl o fewn ffenestri eiddo gwag ar y stryd fawr.

Gofynnwyd i ni fel Cyngor Cymuned i adnabod eiddo ar y Stryd Fawr a fyddai'n cael budd o'r cynllun hwn, a danfonwyd rhestr o eiddo addas at Gyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gael clywed barn y triogolion lleol, pa fath o ddelweddau yr hoffech chi ei weld ar hyd y Stryd Fawr? Oes gennych chi ddelweddau a fyddai'n addas? Danfonwch eich sylwadau a/neu ddelweddau at y Clerc - cyngorbethesda@ogwen.org.

Cyfle Noddi - Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen

Unwaith eto eleni, bydd Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen yn cynnal Cneifio Cyflym Dyffryn Ogwen yng Nghlwb Rygbi Bethesda ar y 3ydd o Awst 2024, er cof am y diweddar Huw Ellis. Yn dilyn trafodaeth, mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus iawn i gefnogi'r digwyddiad hwn drwy noddi'r digwyddiad am £100.00.

### Ceisiadau am Nawdd Ariannol

Derbyniwyd 2 gais am nawdd ariannol:

- Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen
- Kids Cancer Charity.

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd rhoi £50.00 yr un at yr achosion hyn.

### Maes Parcio Gerlan

Er bod y Cyngor wedi ceisio gwthio'r prosiect hwn yn ei flaen, mae rhwystrau mawr wedi codi yn y broses. Mae'r tir dan sylw bellach o dan berchnogaeth newydd, ac mae'r perchnogion newydd yn awyddus iawn i werthu'r darn hwn o dir er mwyn datblygu'r prosiect. Adroddwyd fod y Clerc mewn cyswllt gyda chyfreithiwr er mwyn prynu'r tir. Yn dilyn y pryniant, bydd y Cyngor yn medru symud ymlaen gyda'r camau nesaf.

Bydd y cyfarfodydd blynyddol a chyffredinol nesaf yn cael eu cynnal ar y 23ain o Fai am 18.30 yng Nghanolfan Cefnfaes.

## Cyngor Cymuned Llanllechid - Ebrill 2024

Cynhelir cyfarfod Mis Ebrill yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Iau, Ebrill 11fed.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd, Y Cynghorydd Lowri Evans.

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn dwyn pwysau ar Gyngor Gwynedd am nifer o faterion gan gynnwys tyllau yn y ffordd wrth Fferm Penybryn, gosod arwydd Maes y Groes a phryderon am ysbwriel ar hyd lon beicio Wîg ac hefyd y gilfan gyferbyn ar yr A55.

Fel y sonwyd mis diwethaf mae'r Cyngor Cymuned wrthi'n prynnu peiriant torri gwair i gae peldroed Talybont. Rydym yn chwilio am unrhyw wirfoddolwyr a allai helpu o bryd i'w gilydd gyda thorri'r gwair. Cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda.

Cynhelir y cyfarfod llawn nesaf a'r cyfarfod flynyddol ar Nos Iau 16fed o Fai.

## Cyngor Cymuned Llandegai - Ebrill 2024

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 18fed o Ebill yn rhithiol dros Zoom.

### Seddi Gwag

Adroddwyd fod dwy sedd wag dal ar gael ar y Cyngor Cymuned – un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandegai) ac un sedd Ward Llandygai. Mae'r Cyngor yn awyddus iawn i gael llenwi'r seddi hyn, os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth – ebost cyngorllandygai@ogwen.org neu 01248 602131.

### Gwasanaeth Bws T10 / Arhosfan Llys y Gwynt

Adroddwyd fod y Clerc wedi cysylltu â'r Cyng. Beca Roberts a Sian Gwenllian AS am y posibilrwydd o drefnu cyfarfod gyda Arriva a Chyngor Gwynedd i drafod y mater ymhellach. Nododd y Cyng. Beca Roberts ei bod hi ar ganol trefnu deiseb ar gyfer:

- ymgorffori arhosfan ychwanegol yn, neu'n agos at, 'Llys y Gwynt/One Stop'
- teithio trwy bentref Tregarth ar ddydd Sul.

Bydd y ddeiseb hon yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

### Nodwyddau a thipio anghyfreithlon ar Gae Chwarae Tregarth

Yn anffodus iawn, adroddwyd fod llawer o nodwyddau wedi'u defnyddio a'u gadael ar ochr y Cae Chwarae yn Nhregarth. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi adrodd i'r Heddlu ac i Gyngor Gwynedd am y llanast, a daethpwyd â'r mater difrifol hwn i sylw llawer o drigolion lleol drwy gyfryngau cymdeithasol. Diolchwyd i'r unigolyn hwn am godi ac adrodd am y mater hwn brydlon. Nododd y Cyng. Beca Roberts ei bod ar ganol trafod y mater hwn gyda'r heddlu.

Hefyd, cadarnhawyd fod tipio anghyfreithlon wrth ochr y Cae Chwarae i lawr am y ffos - y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd eisoes.

Bydd y cyfarfod blynyddol a chyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar y 16eg o Fai am 18.30 yn y Ganolfan yn Nhregarth.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Cartref Newydd**

Croeso cynnes iawn i Griff a Nia Elis Williams i'w cartref newydd Yn Ffordd Pen y Bryn. Gobeithio bod yr iechyd yn well y dyddiau hyn Nia. Cofion atoch!

**Ysbyty**

Eto, bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth, a da deall eu bod gartref erbyn hyn ac yn gwella, sef Susan Roberts, Llawr y Nant; Carys Roberts, Hen Aelwyd ac Elwyn Roberts, Rhes Ogwen.

**Marw**

*Megan Burnell*

Ar 28 Mawrth yn ei chartref yn 37 Tan y Graig, Llanrwst, yn 77 mlwydd oed, bu farw Megan Burnell, gynt o Fethesda. Priod annwyl y diweddar Les, a mam garedig Alison, Amanda, Kimberley a'r ddiweddar Debra. Nain arbennig i Leslie a Darren, hen-nain i Lexii Mai ac Owain a modryb hoffus. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener, 12 Ebrill, yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlosgfa Bae Colwyn gyda'r Parchg. Sara Roberts yn gwasanaethu a Mrs. Cristine Davies wrth yr organ. Diolch i Carl am ganu "Hawl i Fyw" yn ystod y gwasanaeth. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

*Gwendoline Griffiths*

Yn Ysbyty Gwynedd ar 20 Ebrill bu farw Gwendoline Griffiths, 21 Ffordd Ffrydlas yn 81 mlwydd oed. Priod annwyl Thomas Griffiths, mam a mam yng nghyfraith hoffus a charedig i Paul a Karen a Brian a Cari. Nain annwyl i Meilir, Awel, Ben, Betsan ac Ethan. Chwaer i Menai a'r diweddar Charles a Phyllis. Gwraig o Glanadda, Bangor oedd Gwen, merch y diweddar Mr. a Mrs. Thomas, Ffordd Caernarfon. Mynychodd ysgolion Bangor, ac 'roedd y teulu yn aelodau selog o Gapel Berea ble priododd â Tom, gyda'r annwyl Barchedig Hugh Rowlands yn gwasanaethu. Wedi cartrefu ym Methesda fe ymaelododd yng Nghapel Siloam ac fe weithiodd yn Ysgol Pen y Bryn. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Gwener, 10 Mai yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn eich colled.

*Selwyn Owen*

Ar ddydd Sul, 21 Ebrill, yn dawel yn ei gartref yn 12 Ffordd Ffrydlas, bu farw Selwyn Owen yn 87 oed. Priod annwyl y ddiweddar Brenda, tad a thad yng nghyfraith Alwena a David, Nerys a Phil, a Medwyn a Mari. Taid hoffus Rhys,Gareth, Anna, Alys, Megan Ffion, Bethan, Aled a Lowri, ynghyd â'u partneriaid, Luke, Jake a Liam. Roedd yn hen-daid i Ela, Ava, Oliver, Lily a Thomas ac yn frawd i Emrys a'r diweddar Gwyneth, Eurwen, Miriam a William. Cynhaliwyd ei angladd fore Iau, 9 Mai, yng Nghapel Jerusalem, ble 'roedd yn aelod ffyddlon, ac yna yn Amlosgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd yn eich hiraeth.

**Clwb Gorffwysfan, Stryd Fawr**

Ddydd Mercher, 24 Ebrill, aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i 'r Wyddgrug a Brychdyn. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau.

Caynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Festri Jerusalem ar Sadwrn, 27 Ebrill. Gwnaed elw o £310.00 ac fe ddiolchir i bawb a fu'n helpu ac a gyfrannodd roddion.

Bydd y wibdaith nesaf yn mynd i Skipton ar ddydd Mercher, 26 Mehefin. Cychwyn am 8yb. Enwau ynghyd a thâl o £3.00 i aelodau a £15.00 gyfeillion i Joe os gwelwch yn dda.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl**

Enillwyr mis Ebrill:
£30 – 33 – Ms T. Bamber, Blackpool
Rhif 71 – Mrs Joan Williams, Llanrwst

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

**Rhybudd**

Mae blwyddyn y Clwb Cant yn dod i ben ddiwedd mis Medi, ac mae angen rhywun i'w drefnu a'i redeg os am ddal ati. Byddai'n drist iddo ddod i ben gan iddo ddod a rhai miloedd i gronfa'r Apêl dros y 3 blynedd ddiwethaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Barbara ar 600530.

**Amlenni Rhodd**

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd - gallwn alw amdanynt.

**Dyddiadau i'w cofio:**

Bore Sadwrn, Mai 18: 10-12
Bore Coffi Cymorth Cristnogol yng Nghanolfan Cefnfaes – llawr uchaf

Prynhawn Sadwrn 18/5:
Stondin yn y Carnifal

Nos Sul, Mai 19, 5 o'r gloch y prynhawn:

Gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol yn yr eglwys

Nos Wener, Mai 24
Gŵyl Melangell yn yr eglwys am 7 yr hwyr
Manylion ar y Cyfryngau lleol

Prynhawn Sul, Mai 26 – Ffair Wanwyn o flaen yr eglwys – manylion gan y Parch. Sara Roberts os am gynnal stondin.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl.

Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau Eglwys Crist**

Pob Sul – Cymun Bendigaid am 11.00

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**

Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ac ar gael ar 07967652981.

**Cymanfa Ganu**

Fore Sul 09.06.24, 11 y bore, i ddathlu Sul Cerddoriaeth, rhywbeth mae Ysgol Frenhinol Cerddoriaeth Eglwysig wedi bod yn ei gynnal ers rhai blynyddoedd, ac rydym ni wastad wedi ymuno. Digwyddiad i dynnu sylw pobl at y gwaith maen nhw'n ei wneud ac i annog plwyfi i anelu tuag at safon dda o gerddoriaeth yn yr eglwysi. Hefyd codi arian at y Gwaith. Rydym wedi bod yn meddwl ceisio gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol eleni, a chymanfa fydd hi!



## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**

Diolch o galon i'r canlynol am ddod i wasanaethu yn yr oedfaon diweddar: Mrs Eirlys Williams; Y Parchedig Nerys Griffiths a Mr Donald Pritchard – dau ohonynt heb fod gyda ni ers cyn y Covid. Hyfryd oedd eu gweld unwaith eto, a chael gwrando ar eu cenadwri.

**Cofion**

Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion cywiraf at yr aelodau hynny sydd yn methu dod i'r oedfaon ar hyn o bryd, a diolchwn am ffyddlondeb y rhai sydd yn gwrando ar y ffôn yn gyson.

**Yr Ysgol Sul**

Diolch i'r Gweinidog a Menna Wyn am drefnu'r Stomp a gynhaliwyd Ebrill 5ed. Cafwyd amser difyr dros ben, a phawb wedi mwynhau'n arw.





**Y Gymdeithas**

Yng nghyfarfod mis Ebrill daeth y Parchedig Wyn Roberts draw i'n diddanu. Mae Wyn yn Brif Gaplan i Ysbytai Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, ond, yn ei amser rhydd, ei ddiddordeb yw canu yn null Elvis Presley. Bu'n sâl drwy'r dydd, ond 'roedd yn gyndyn o dorri ei gyhoeddiad a siomi ei gynulleidfa. Yn anffodus bu raid iddo ddod â'i berfformiad i ben yn gynnar.

'Roedd pawb yn bryderus yn ei gylch, ac yn gresynu na chawsom fwy o amser i fwynhau ei lais melodaidd, a'i fedrusrwydd ar y gitâr. Bydd Wyn yn hoffi gweddnewid rhai o'r hen ganeuon poblogaidd, Cymraeg a Saesneg, a gosod ei stamp ei hun arnynt. Dymunodd Neville, ein Llywydd, wellhad llwyr a buan iddo, yn y gobaith y cawn gyfle arall i fwynhau ei gwmni yn y dyfodol.

Dros baned, penderfynwyd cynnal pwyllgor fore Iau, Ebrill 25, i drafod dyddiad a threfniadadu'r Bore Coffi a Gwibdaith yr haf.

**Colled**

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth annisgwyl Selwyn Owen – un o hoelion wyth y capel. Roedd yn hynod o ffyddlon i weithgareddau'r capel, a'i wên barod yn codi calon bob amser. Bydd colled ar ei ôl, ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Alwena, Nerys, Medwyn a'u teuluoedd yn eu gofid a'u hiraeth.

**Cyhoeddiadau'r Sul**

Mai 19: Y Gweinidog (10)
Mai 26: Y Parchedig Mererid Mair (10)
Mehefin 2: Y Parchedig Brian Wright (5)
Mehefin 9: Y Gweinidog (10)
Mehefin 16: Trefniant Mewnol (10)

# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## 8:8:8

Wedi sôn yn y golofn hon y mis diwethaf am ymadrodd dieithr, dyma rannu â chi rywbeth arall sy'n ddieithr i mi: 8:8:8. Nid pos na fformiwla mohono, ond dywediad. Fe'i clywais heddiw mewn teyrnged angladdol i Gristion gloyw a'i gwnaeth yn rheol a phatrwm i'w fywyd ar hyd y blynyddoedd. '8:8:8' – 8 awr o gwsg; 8 awr o waith; ac 8 awr o hamdden.

Chlywais i neb o'r blaen yn sôn am rannu eu dydd fel hyn. Bosib iawn nad ydi 'Wyth, Wyth, Wyth' yn ymadrodd fel y cyfryw, ac mai ffordd wreiddiol a phersonol y gŵr arbennig hwn o drefnu ei fywyd ydoedd. Ond yn ôl pob tystiolaeth, felly'n union y bu fyw, gan sicrhau cydbwysedd rhyfeddol rhwng cwsg, gwaith a hamdden. Ac o wrando ar y deyrnged, fedrwn i ddim peidio â dotio at yr hyn a ddywedwyd.

A fedrwn i chwaith ddim peidio â chenfigennu. Cenfigennu wrth un oedd yn ddigon trefnus i sicrhau wyth awr o gwsg yn rheolaidd. Cenfigennu hefyd wrth un oedd yn ddigon disgybledig i gyflawni wyth awr o waith o ddydd i ddydd, ac o flwyddyn i flwyddyn. A chenfigennu hefyd wrth un oedd yn ddigon doeth i sicrhau wyth awr o hamdden iddo'i hun yn gyson. Go brin iddo lynu wrth y drefn hon yn gwbl ddeddfol, i'r funud a'r eiliad, ond ni allwn ond cenfigennu wrth un a osododd drefn o'r fath yn egwyddor sylfaenol ac yn batrwm i'w ddilyn. Ac ni allwn chwaith lai na meddwl bod y fath batrwm a'r fath gydbwysedd wrth fodd calon y Creawdwr yr oedd y gŵr bonheddig hwn yn credu â'i holl galon ynddo, a'i fod hefyd yn batrwm y byddai o les i lawer ohonom ei efelychu.

Ond er mwyn gwerthfawrogi'n llawn y patrwm, rhaid oedd clywed y dystiolaeth i'r wyth awr o hamdden. Nid wyth awr o ddiogi nac o wastraffu amser ac egni, ond wyth awr o hamddena i'r eithaf gan mai i'r wyth awr hwnnw o hamddena dyddiol y perthynai nid yn unig gyfoeth ei ymwneud â'i deulu ond ei wasanaeth hynod a ffyddlon i'w gymuned, yn lleol ac yn ehangach trwy bob math o gymdeithasau ac elusennau a mudiadau, ac yn fwyaf arbennig ei wasanaeth i'w eglwys ac i'w Waredwr. Mewn gwirionedd, nid wyth awr o hamdden 'iddo'i hun' ond i'w Dduw. Cafwyd darlun rhyfeddol a phrydferth o'r bywyd Cristnogol ar ei orau ac o ffydd gadarn a gloyw yn yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn amlwg, y tu cefn i'r '8:8:8' yr oedd yr argyhoeddiad sylfaenol bod bywyd cyfan nid yn unig yn llaw Duw ond yn ddarostyngedig iddo hefyd, A lle bynnag y gwelwn ni bobl yn cysegru eu bywydau i'r Duw Mawr sydd wedi amlygu ei gariad atom yn ei Fab Iesu Grist, ni allwn ond cenfigennu wrthyn nhw. Ac er y gall y cenfigennu hwnnw wneud i ni gywilyddio wrth sylweddoli mor bell ydym yn aml o'r fath ymgysegriad, mi all hefyd – diolch am hynny – fod yn anogaeth i ni i geisio efelychu'r bobl dda a duwiol hynny yn ein bywydau ein hunain.


Ond sut bynnag y trefnwn ni ein dydd a'n hamser, yr un ddylai'r nod fod i bawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu: byw ein bywyd cyfan yn ufudd iddo ac er ei glod. A hynny oherwydd ei gariad rhyfeddol tuag atom.

**JOHN PRITCHARD**

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



# CROESAIR



**AR DRAWS**

1 Adeilad enwog yn ein prifddinas i gofio a deisyfu 'Heddwch' yn ein byd (4)
3 Heb ddechrau rybela bu'r chwarelwr yn mentro ei fywyd yn llafurio arni (5)
7 Consuriwr neu ddewin (6)
8 Fe'i teflir i'r ddaear pan fydd diffyg ar yr haul (6)
9 Mae'r gweithiwr yn 3 Ar Draws yn ei drin bob dydd (7)
10 Dyna ddihiryn drwg (4)
11 Symudodd ar y llwyfan i siarad yn ddeallus a huawdl (9)
16 'Brig ton neu grych afonydd' (4)
17 Man gwan (7)
19 Cafodd Rhian ôl ei theulu wrth chwilio'i hachau (6)
20 Canlyniad aml tor priodas (6)
21 Rhoi mesur o ffisig neu foddion (5)
22 Gwraig Ty'n y Fawnog yn y capel (4)

**I LAWR**

1 Yr hyn wna 8 Ar Draws (6)
2 Mae'r gŵr duwiol yn newid yn aml iawn wrth roi'r olaf yn lle'r gyntaf (5)
3 Gwerthu pentwr er mwyn cael ticed (5)
4 Rhoi pris da am un sach er mwyn ei werthu (7)
5 Lapio fel llysieuyn yn yr oerfel a chrio wrth ei dorri (6)
6 Mw-mw ; me-me ; cwac-cwac ganai'n y coleg gynt, ond wedi distewi bellach (6)
12 Mae'n llesol am i sant gael ei gywiro (7)
13 Twll y trwyn yn soniarus fel ffliwt neu ffidil (6)
14 Angen bwyd (6)
15 Er ynghanol 10 Ar Draws yn ei wneud yn bluog (6)
17 Gwaith 'Nodwydd a rîl o edau' (5)
18 Rhoi digon yn ofalus i bawb mewn amser o gyni (5)

**ATEBION CROESAIR EBRILL 2024**

**AR DRAWS** 7 Pastai, 8 Grwndi, 9 Isaf, 11 Oes, 12 Mega, 15 Nodau, 17 Ffurfiol, 19 Tafodau, 21 Sbeis/Saets, 24 Meddu, 27 Suo, 28 Buan, 30 Cadair, 31 Brysio

**I LAWR** 1 Cais, 2 Ataf, 3 Bidog, 4 Agosau, 5 Twym, 6 Adeg, 9 Ian, 10 Ap Dafydd, 13 Etifeddu,14 Aml, 16 Uwd, 17 Ffau, 18 Ras, 19 Twm, 20 Amseru, 22 Sŵn, 23 Cosbi, 25 Esau, 26 U.C.A.C., 28 Bwyd, 29 Adio









Wedi pendroni am ateb 21 Ar Draws deuthum i'r penderfyniad i dderbyn y ddau ateb, 'Sbeis' a 'Saets', gan fod y ddau yn gallu ateb y cliw. Roedd y ddau ateb mor amlwg a'i gilydd yn y cynigion a gafwyd.

Gan y canlynol y cafwyd atebion cywir y tro hwn : Huw a Gwenno, Gerlan; Dilys Wyn Griffith, Abergele;
Judith Hughes, Llangoed; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Tregarth;
Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Stella Dafis, Rachub; Gill King Mynydd Llandygai;
Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Doris Shaw, Bethesda; Barbara Jones, Talybont; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas;
Gwenda Roberts, Rhosmeirch; M. A. Jones, Wendy Eccles, Llanllechid

Mae'r clod a'r wobr y tro hwn yn mynd i Dilys Wyn Griffith, Sŵn yr Afon, 3 Tower Way, Abergele, Conwy LL22 7AY. Llongyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn 7ed Mehefin 2024 ***fan bellaf*** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

Bu blwyddyn 11 yn cystadlu mewn *Her Fathemategol* yn ddiweddar, mae'n gystadleuaeth a gynhelir yn flynyddol ar draws y DU i ddisgyblion blwyddyn 11 gan brofi eu sgiliau rhesymu mathemategol a meddwl creadigol i ddatrys problemau diddorol. Llongyfarchiadau arbennig i Jac a Daniel a ddaeth i'r brig gyda gwobr arian i Jac a gwobr efydd i Daniel. Rydym yn falch iawn o'ch llwyddiant.



**Daniel Jones a Jac Griffiths**

Cafodd 4 o ddisgyblion mwyaf abl a thalentog blwyddyn 9 lawer o hwyl yn cynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Fathemateg. Roedd y gystadleuaeth, a drefnwyd gan GwE ym Mhrifysgol Bangor, yn gofyn i'r disgyblion weithio fel tîm i ddatrys problemau amrywiol. Roedd Ela, Harri, Benjamin ac Elliw wedi arddangos sgiliau mathemategol a dyfalbarhad arbennig.




**Ela Williams, Harri Hinchliffe, Benjamin Freeman-Jones ac Elliw Hywel**

## Gweithgareddau Gwyliau'r Pasg

Bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn mwynhau gweithgareddau yn yr ysgol dros gyfnod gwyliau'r Pasg. Roedd pawb wedi mwynhau coginio pitsa, addurno crochenwaith a gweithgareddau chwaraeon.

Diolch hefyd i Bartneriaeth Ogwen am groesawu'r disgyblion i Ganolfan Cefnfaes wrth iddynt ddiddanu ac arwain gweithgareddau celf a chrefft.



**Seren McCollin ac Elise Moore yn mwynhau coginio pitsa.**

## COPA1

Bu disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 yn derbyn her COPA1 gan Alec Young o Barc Cenedlaethol Eryri heddiw. Dros yr wythnosau nesaf byddant yn mynd ati i gynllunio ar gyfer cyflwyno eu 'syniad mawr' ar sut i fynd i'r afael â llygredd plastig ar Yr Wyddfa a'i wneud yn fynydd di-blastig cyntaf y byd. Pob lwc i bob un ohonynt, edrychwn ymlaen yn fawr i glywed eu syniadau!




**Disgyblion bl 7 ac 8 gyda Mr Alec Young o Barc Cenedlaethol Eryri**

## Gweithdy Lles

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn Gweithdy Lles a gig fyw gyda Tesni Hughes a @TaraBandito. Roedd hyn yn brofiad cyntaf o gerddoriaeth Cymraeg byw i rhai o'r disgyblion ac roedd pawb wir wedi mwynhau.

## Samariaid

Diolch yn fawr i'r Samariaid am ddod draw i gynnal gwasanaeth a rhannu gwybodaeth am eu gwaith gyda blynyddoedd 9 a 10.

## 'BREEDON Welsh Slate'

Gyda diolch i gwmni Llechi Cymreig Breedon mae disgyblion blwyddyn 8 wedi cael cyfleoedd gwerthfawr i gynllunio, dylunio, creu a gwerthuso cynnyrch llechi eu hunain, gan ddefnyddio technoleg fodern yr ysgol yn ystod eu gwersi Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Darparwyd y deunyddiau llechi gan y cwmni fel rhodd i'r ysgol cyn i'r disgyblion fynd ati i adnabod cwsmer a marchnad ar gyfer creu eu cynnyrch. O ganlyniad, mae potiau planhigion, arwyddion tai a nwyddau amrywiol wedi eu dylunio. Diolch i Mike Ford o gwmni Llechi Cymreig Breedon am gyflwyno gwobr Xander Sonnex, y disgybl sydd wedi dylunio'r cynnyrch gorau.



**Xander Sonnex gyda Mr Mike Ford o Llechi Cymreig Breedon**


**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

# Clwb Pel-rwyd Bethesda

Dyma Glwb Pêl-rwyd Bethesda, sef criw o enethod blwyddyn 5 a 6. Sefydlodd Nerys y clwb yn ôl ym mis Ionawr ac erbyn hyn mae bron i 40 o enethod wedi cofrestru ac yn ymarfer yn wythnosol draw ym Mhlas Ffrancon. Mae'n braf gweld y genethod yn datblygu eu sgiliau a dealltwriaeth o'r gêm ond yn bwysicach na hynny - yn mwynhau!! Chwaraeodd y genod eu gemau cyfeillgar cyntaf yn ddiweddar yn erbyn Clwb Pêl-rwyd Caergybi a Pêl-rwyd Yr Urdd. Perfformiodd y genod i gyd yn wych. Mae 'na dalent yma ym Methesda - mae'r dyfodol yn un disglair!!!













Hoffai Nerys a'r genod ddiolch yn fawr iawn i Matthew Williams (M.W Plastering & Rendering LTD) am noddi'r clwb. Maent yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth. Ar yr un nodyn, hoffai Nerys ddiolch yn fawr i'r rhieni am fod mor gefnogol wrth iddi ddechrau ar yr antur newydd.

# Diolch yn fawr Dylan







Diwedd tymor arall o rygbi ar Ddôl Ddafydd – tymor digon cymysglyd a dweud y gwir.

Cafwyd dechreuad calonogol iawn o dan gyfarwyddyd ein hyfforddwr newydd, Andrew Williams. Fel aeth y tymor ymlaen, cymysglyd oedd y canlyniadau ond llwyddodd y Tîm Cyntaf i sicrhau na fyddai perygl o syrthio i Adran 2 Gogledd.

Gwahanol iawn oedd hanes clwb oedd yn un o sylfaenwyr Undeb Rygbi Cymru, sef Dolgellau. Gêm gartref olaf Bethesda o'r tymor oedd yn erbyn tîm oedd heb ennill un gêm y tymor hwn. Dros y blynyddoedd, 'roedd y tîm o Feirionnydd wedi bod yn un o'r rhai anoddaf i'w curo, yn enwedig ar y Marian ar lannau Afon Wnion.

Penderfynodd Bethesda ddewis chwaraewr sydd wedi cynrychioli'r Tîm Cyntaf yn ddi-dor ers dros 20 mlynedd. Mae nifer o gefnogwyr y clwb yn cofio gweld Dylan Owen yn cynrychioli Hogia' Pesda yn nhimau Minis, Iau, Ieuenctid a'r Tîm Cyntaf. Ni bu erioed ddiffyg ymdrech mewn unrhyw gêm a chwaraeodd Dylan ar unrhyw lefel. 'Roedd ei gryfder naturiol yn ei alluogi i chwarae yn yr ail reng neu yn y rheng flaen.

Penderfynodd y clwb groesawu Dylan i'r cae yn ei gêm olaf i'r clwb. Safodd chwaraewyr y ddau dîm mewn dwy res i gymeradwyo Dylan a'i blant Osian ac Erin.

Oedd yr "hen ŵr" yn ddigon da i chwarae ar y lefel yma? Oedd siŵr! Munud neu ddau cyn hanner amser sgoriodd Dylan gais nodweddiadol gan ddangos ei gryfder yn agos at linell y gwrthwynebwyr.

Yna, am y tro cyntaf yn ei yrfa rygbi, cafodd y cyfle i drosi ei gais ei hun! Lwyddodd o i ychwanegu 2 bwynt? Do siŵr iawn!

Nid dyma weithred olaf Dylan ar y cae rygbi. Mae eisoes yn hyfforddi chwaraewyr y dyfodol a bydd yn parhau i wneud hynny. Diolch yn fawr iawn"Skin".

O ia – beth oedd sgôr gêm olaf Dylan?

Bethesda 57 – Dolgellau 12.